# CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD

# 2012 - 2013

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR | 03 |
| 2. PARATOI'R CYNLLUN | 04 |
| 3. PROFFIL O WYNEDD A'R CYNGOR | 05 |
| 4. NATUR Y CYNLLUN | 06 |
| 5. SYMUD YMLAEN GYDA'R GWAITH | 08 |
| 6. CYNIGION YN Y MAES GOFAL AR GYFER 2012/13 | 09 |
| 7. CYNIGION YM MAES ADFYWIO A'R ECONOMI AR GYFER 2012/13 | 17 |
| 8. CYNIGION YN Y MAES PLANT A PHOBL IFANC AR GYFER 2012/13 | 37 |
| 9. CYNIGION YN Y MAES AMGYLCHEDD AC ISADEILEDD AR GYFER 2012/13 | 48 |
| 10. CYNIGION YN Y MAES TRAWSFFURFIO AR GYFER 2012/13 | 60 |
| 11. CYNIGION YN Y MAES ARBEDION AR GYFER 2012/13 | 72 |
| 12. CYNIGION YN Y MAES GWELLA IECHYD AR GYFER 2012/13 | 80 |
| 13. CYNIGION YN Y MAES IAITH AR GYFER 2012/13 | 89 |
| 14. CYNIGION YN Y MAES CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR GYFER 2012/13 | 92 |
| ATODIAD 1 - MESURYDDION ALLWEDDOL Y CYNGOR | 95 |
| ATODIAD 2 - STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR AR GYFER 2012/13 YMLAEN | 102 |
| ATODIAD 3 - DANGOSYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL | 105 |

## 1. CYFLWYNIAD YR ARWEINYDD A'R PRIF WEITHREDWR

Mae gweithredu'n effeithiol ac effeithlon er lles trigolion yn bwysicach nag arfer ar adegau anodd a heriol. Er mwyn gwneud hynny'n iawn, mae'n rhaid i unrhyw gyngor adnabod y pethau iawn i roi sylw iddynt a chynllunio'n drefnus ac effeithiol i gyfarch y materion hynny.


Ers rhai blynyddoedd nawr, mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen er mwyn cyflawni dros bobl Gwynedd, gan barhau i ymdrechu at ein nod o geisio'r "Gorau i Bobl Gwynedd, Heddiw ac Yfory". Mae cynnwys y cynllun yn adlewyrchu pendantrwydd y Cyngor i wneud mwy efo llai trwy fod yn flaengar, creadigol a phositif am y dyfodol wrth ymateb i'r heriau ariannol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynlluniau sydd gennym ar y gweill eleni ond hefyd, yn amlinellu rhai meysydd arbennig lle rydym yn ystyried gwneud ymyrraeth penodol o'r newydd o 2013 ymlaen. Bydd Cynllun Strategol newydd cyflawn tymor hwy ar gyfer y cyfnod o 2013-17 yn cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf

Rydym yn cyflwyno'r Cynllun hwn i'ch sylw.







Dyfed Edwards
Arweinydd y Cyngor



Harry Thomas
Prif Weithredwr

## 2. PARATOI'R CYNLLUN

Mae'r Cynllun hwn yn ddogfen allweddol i'r Cyngor gan ei fod yn gynllun strategol sydd yn crynhoi'r amcanion gwella y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn y flwyddyn dan sylw.

Mae cynllunio strategol y Cyngor yn digwydd, wrth gwrs, o fewn fframwaith Partneriaeth Gwynedd ar y Cyd a'r Strategaeth Gymunedol. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn gosod canlyniadau lefel uchel y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio tuag atynt ac yn disgrifio'r pethau yr hoffai'r Bartneriaeth eu cyflawni yng Ngwynedd:

- Ardal ble mae'r economi yn ffynnu
- Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy
- Ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo
- Ardal byrlymus i fyw gyda chymunedau diogel
- Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned

Mae'r Cynllun yn adeiladu ar y gwaith cynllunio tymor hwy a gwblhaodd y Cyngor yn ystod 2010/11 trwy drefniadau manwl a chynhwysol ac yn fynegiant o gynlluniau'r Cyngor y tu fewn i'r fframwaith hwnnw.

Cychwyn y gwaith o baratoi'r Cynllun oedd asesiad trylwyr iawn o'r prif yrwyr sydd yn dylanwadu ar y sir nawr ac sy'n debygol o wneud hynny yn y blynyddoedd nesaf. Cyflawnwyd hwn ar y cyd â phartneriaid o dan faner y Strategaeth Gymunedol a phartneriaethau allweddol arall o fewn y sir. Arweiniodd hwn at gasgliad o ddata a gwybodaeth allweddol a oedd yn cynnig darlun ystadegol o'r her sydd yn wynebu'r Sir. Golygodd hyn oll ein bod, yn Gyngor ac yn prif bartneriaethau, yn cyd-gynllunio ar sail yr un data.

Y cam nesaf oedd ymgynghori mewn nifer o leoliadau drwy'r sir i geisio barn grwpiau o'r cyhoedd ar y materion sydd angen sylw yn y blynyddoedd nesaf. Unwaith eto, cwblhawyd y gwaith hwn ar y cyd efo partneriaid. Golygodd hyn bod y Cyngor a'i bartneriaid yn trafod gyda thrigolion ar y cyd yn hytrach na'r tueddiad yn y gorffennol i fynd allan yn ddarniog a gofyn yr un math o gwestiynau sawl tro i'r un bobl.

Daethpwyd â'r casgliadau hynny, yn ddata a barn, ynghyd i ddylanwadu ar lunio'r cynlluniau sydd wedi bod yn cael eu datblygu yn y Cyngor o fewn gwahanol feysydd. Yn ogystal, cafwyd tri gweithdy ar gyfer yr holl gynghorwyr ac uwch swyddogion a arweiniodd, yn eu tro, at:

- restr o brif faterion a chanlyniadau a gafodd eu cyflwyno a'u cytuno;
- gasgliadau a negeseuon allweddol er ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau manwl;
- farn, sylwadau a mewnbwn ar y meysydd gwahanol cyn cwblhau'r cynlluniau manwl.

Yn dilyn etholiad y Cyngor ym Mai, 2012, mae'r Cyngor newydd wedi edrych ar y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn o dan hen Gynllun Tair Blynedd y Cyngor a'r hyn sydd angen ei wneud ymhellach er mwyn gweithredu ar ein hamcanion gwella. Mae hyn wedi golygu bod asesiad wedi ei wneud o bethau oedd yn medru disgyn allan o'r Cynllun blaenorol ac mae lefel yr uchelgais wedi newid ar rai cynlluniau.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Strategol hyd at 28 Awst 2012. Cyhoeddwyd y Cynllun Strategol ar wefan y Cyngor a pharatowyd datganiad i'r wasg er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y ddogfen. Cafodd Aelodau, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Penaethiaid Adran a phartneriaid allweddol y Cyngor hefyd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Gwnaed defnydd o rwydweithiau cymdeithasol (e.e. Twitter) er mwyn hyrwyddo'r ddogfen ac ennyn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae rhai materion wedi disgyn allan o'r cynllun yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd a gwaith pellach ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi adnabod Ymyraethau Allweddol lle y mae am ddatblygu cynigion penodol a newydd. Fe adlewyrchir y rhain fesul maes yng nghorff y ddogfen. Defnyddiwyd y cyfnod ymgynghorol i wyntyllu barn gychwynnol ar yr hyn sydd angen ei gyflawni o ran yr Ymyraethau Allweddol cyn symud ymlaen gyda gwaith i ddatblygu cynigion penodol yn y meysydd hynny a fydd, gyda chytundeb, yn rhan o'r Cynllun Strategol newydd o 2013 ymlaen.

## 3. PROFFIL O WYNEDD A'R CYNGOR

Cyflwynir isod ychydig o ffeithiau am Sir Gwynedd a'r Cyngor:

- Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 121,900 o breswylwyr. Ers 2001 mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 4.3% (5,057 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 5.5% yng Nghymru.

- Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint Mewn termau daearyddol, Gwynedd yw'r ail gyngor mwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

- Mae 69% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

- Yn 2010/11 roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £298.4 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 17,000 o breswylwyr, cynnal 2,882 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

- Mae 102 ysgol gynradd, 14 ysgol uwchradd a 3 ysgol arbennig yng Ngwynedd.

- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 14 Canolfan Hamdden o fewn y Sir ac 17 o lyfrgelloedd.

- Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2010 daeth oddeutu 7.2 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £852 miliwn mewn refeniw.

- Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

- Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.


- Mae cyfartaledd incwm cartref yng Ngwynedd (£23,280) yn 7.5% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£25,160) ac 19.7% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£29,000).

- Yn 2011 y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £132,000 sydd yn ostyngiad o 2.9% o'i gymharu â 2010.

- Mae wedi ei amcangyfrif y bydd nifer y cartrefi yng Ngwynedd wedi cynyddu o 16.2% erbyn 2033. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 25.0%.

## 4. NATUR Y CYNLLUN

Nod y Cyngor yw cynnig **Y Gorau ar gyfer Pobl Gwynedd Heddiw ac Yfory** ac mae'n gwneud hynny yn bennaf trwy ei fusnes arferol, y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu yn ddyddiol. Mae'r Cynllun hwnnw yn rhoi'r sylw pennaf i'r prif newidiadau y mae'r Cyngor yn ymrwymo iddynt trwy raglenni a phrosiectau penodol. Mae rhai ohonynt yn edrych allan ar wasanaethau i drigolion ac eraill yn galluogi'r Cyngor i fedru gwneud hynny. Mae'r diagram isod yn crynhoi hynny:




Mae'r gweddill o ddogfen y Cynllun yn dilyn y patrwm o gyflwyniad, fesul maes, o'r weledigaeth, esboniad o'r canlyniadau a'r profiadau y mae'r Cyngor wedi eu sefydlu ac yn anelu tuag at eu gwireddu. Dilynir hyn gan:

- Nodyn o'r Ymyraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol ar gyfer y dyfodol.
- Ddisgrifiad byr o bob prosiect ac amlinelliad fesul prosiect o'r buddiannau ar hyd y daith y bwriedir eu gwireddu yn ystod 2012/13
- Amlinelliad o "ddangosyddion allweddol" o fewn y maes, sydd yn ceisio mesur cynnydd y rhaglenni tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt

Mae'r canlyniadau ar gyfer pob maes yn crynhoi Amcanion Gwella'r Cyngor a bydd modd mesur y graddau y byddwn yn cwrdd â'r amcanion gwella hynny trwy gyfeirio at ein llwyddiant yn gwireddu'r buddiannau yr ymrwymir iddynt yn rhannau 6 i 14 isod.

Yn olaf, mae tri atodiad:

Atodiad 1 yn dangos mesuryddion allweddol y Cyngor.

Atodiad 2 yn amlinellu'r Strategaeth Ariannol dros gyfnod y Cynllun.

Atodiad 3 yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol.

Cyflwynir isod ddiffiniadau o rai o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon:

*Gweledigaeth:* Disgrifiad o sut fydd y dyfodol yn edrych o fewn maes penodol.

*Canlyniad:* Disgrifiad o'r cyflwr lles i'r boblogaeth y byddwn yn gweithio tuag ato.

*Profiad:* Disgrifiad o sut fydd y canlyniad yn edrych i'r boblogaeth dan sylw.

*Buddiannau Ar Hyd Y Daith:* Disgrifiad o'r pethau fydd prosiectau yn eu cyflawni / gwireddu yn ystod y flwyddyn.

## 5. SYMUD YMLAEN GYDA'R GWAITH

Mae'r Cynllun hwn wedi ei lunio ar sail y gwaith a amlinellwyd uchod ond mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o'r amgylchiadau cyfnewidiol y mae'n gweithio ynddynt ac mae'r Cynllun yn un byw sydd yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae adnoddau wedi ei glustnodi ar gyfer cefnogi'r prosiectau sydd wedi eu cynnwys a bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y gwireddir y buddiannau sydd yn cael eu dangos yn y ddogfen. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad ar derfyn y flwyddyn gynllunio hon gyda golwg ar gyhoeddi Cynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod o 2013 ymlaen.

## 6. CYNIGION YN Y MAES GOFAL AR GYFER 2012/13

### 6.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Gofal yw

*Cyfrannu at amddiffyn y bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau gan sicrhau ystod eang o wasanaethau iddynt sydd yn hyrwyddo eu hanibyniaeth ac yn eu cynnwys wrth gydgynllunio, gwerthuso ac adolygu gwasanaethau*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

- *Pobl a phlant bregus yn derbyn cefnogaeth i fyw bywyd bodlon*

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau lle bo'n bosib*
- *Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis llety addas i'w anghenion*
- *Plant, pobl ifanc, oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion.*
- *Teuluoedd gydag anghenion dwys yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig i'w galluogi i fagu eu plant yn effeithiol*.

6.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi nod rhai Ymyrraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol a newydd. Bydd gwaith yn digwydd yn ystod y flwyddyn i edrych ar y mater allweddol hwn, cwblhau gwaith dadansoddi / ymchwil ac ymchwiliadau cynhwysol i'r mater fel bod modd datblygu cynigion penodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i fywyd trigolion fel rhan o'r Cynllun Strategol o 2013 ymlaen.

| **6.2.1 Y Maes:** Asesiad o Anghenion Gofal ar draws y sir |
|---|
| **Yr Angen am sylw:**<br><br>Mae ymchwil cenedlaethol a lleol yn awgrymu fod anghenion a disgwyliadau pobl hŷn yn newid. Wrth fynd yn hŷn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn gweld eu hunain yn byw gartref gyda chefnogaeth os oes angen. Mae'r newid demograffig a'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn hefyd yn newid y gofyn am wasanaethau cyhoeddus. Rhagwelir hefyd cynnydd yn nifer y bobl lfydd â dementia yng Ngwynedd o 35%.<br><br>Er mwyn ymateb i'r galw presennol a chynllunio i'r dyfodol bydd gofyn adnabod:<br><br>• beth ydy'r galw presennol ym maes llety a gofal<br>• beth fydd y galw yn y dyfodol a'r disgwyliadau<br>• pa fodelau llety a gofal fyddai'n ateb y galw hwnnw ar lefel leol ac yn sirol |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| Bwriedir cynnal asesiad o anghenion un dalgylch sef dalgylch Porthmadog a datblygu cyfres o opsiynau gweithredu yn ogystal ag adnabod gwersi o'r hyn wnaethpwyd yno |

6.3 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

**6.3.1 Teitl y Prosiect: Trawsffurfio Gwasanaethau Anabledd Dysgu**

**Profiad/au:**

- Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned
- Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w anghenion
- Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13 |
|---|---|
| **Llety**<br>**Byddwn wedi datblygu model llety newydd ym Mhant yr Eithin ar gyfer 8 unigolyn ac yn datblygu opsiynau mewn safleoedd eraill** | • Trigolion Tan y Marian a Phant yr Eithin wedi eu lleoli mewn llety addas a phriodol i'w anghenion<br>• Byddwn wedi cytuno ar gynllun gwaith datblygiad newydd Pant yr Eithin<br>• Bydd tir Pant yr Eithin wedi ei drosglwyddo i Gymdeithas Tai Eryri ar gyfer y datblygiad newydd |
| **Gwasanaeth Dydd**<br>**Byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd a phrofiadau cymdeithasu, gwaith a gofal yn unol ag anghenion unigolion gan sicrhau cynhwysiad cymdeithasol** | • Byddwn wedi cytuno ar gamau cychwynnol fydd eu hangen i gynnig cyfleoedd a phrofiadau cymdeithasu, gwaith a gofal |
| **Taliadau Uniongyrchol**<br>**Byddwn wedi cynyddu'r nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol gan eu galluogi i reoli eu gofal eu hunain** | • Byddwn wedi adnabod y camau angenrheidiol i gynyddu'r nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ac yn gweithredu arnynt |
| **Galluogi**<br>**Byddwn yn cefnogi unigolion i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau yn llai dibynnol ar wasanaethau drwy gynnig cefnogaeth yn seiliedig ar alluogi** | • Byddwn wedi cytuno ar gynllun gwaith gyda budd-ddeiliaid ac wedi adnabod grŵp i weithredu'r cynllun<br>• Bydd y gwasanaeth galluogi ar gael i unigolion ar draws Gwy |

| | |
|---|---|
| **Ysbaid**<br>**Byddwn yn darparu gofal ysbaid mwy hyblyg i fwy o ddefnyddwyr gan eu galluogi i reoli eu gofal** | • Byddwn wedi cychwyn adolygu'r ddarpariaeth bresennol i sicrhau cefnogaeth amserol |
| **Teleofal**<br>**Byddwn wedi mireinio'r ac uchafu'r defnydd o deleofal ac offer yng Ngwynedd er mwyn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel** | • Byddwn wedi adolygu holl drefniadau a phrosesau'r gwasanaeth Teleofal er mwyn hwyluso mynediad ein defnyddwyr gwasanaeth at becynnau mwy cymhleth o deleofal<br>• Byddwn wedi cynnal arolwg o'r gwasanaeth o safbwynt y defnyddiwr er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn ychwanegu at eu gallu i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel<br>• Darparu 30 pecyn teleofal cymhleth ym maes anabledd dysgu |

| **6.3.2 Teitl y Prosiect: Trawsffurfio Gwasanaethau Pobl Hŷn** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Mwy o oedolion bregus yn cael dewis o gefnogaeth addas i fyw'n annibynnol yn y gymuned<br>• Oedolion bregus yn cael mwy o ddewis o lety addas i'w anghenion<br>• Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Teleofal**<br>**Byddwn wedi cynyddu'r defnydd o deleofal ac offer yng Ngwynedd er mwyn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel** | • Byddwn wedi adolygu trefniadau a phrosesau'r gwasanaeth teleofal er mwyn hwyluso mynediad ein defnyddwyr gwasanaeth at becynnau mwy cymhleth o deleofal<br>• 100 o becynnau cymhleth newydd pob blwyddyn<br>• 465 o becynnau sylfaenol newydd pob blwyddyn<br>• Gwireddu arbedion o £266,662 |
| **Galluogi**<br>**Bydd pobl fregus yn cael cynnig darpariaeth galluogi i'w cynorthwyo i adfer neu gynnal sgiliau byw ac annibyniaeth** | • Ymestyn y ddarpariaeth Galluogi i ddefnyddwyr gwasanaeth unedau preswyl a gofal dydd y Cyngor<br>• Uned 6 gwely wedi ei sefydlu i ddarparu gofal tymor byr adfer<br>• Byddwn wedi adolygu holl drefniadau a phrosesau'r gwasanaeth galluogi er mwyn sicrhau fod defnyddwyr yn derbyn y gwasanaeth yn brydlon<br>• Bydd pob darparwr gwasanaeth gofal sy'n cael ei gomisiynu gan gyngor Gwynedd yn gweithio tuag at uchafu gallu pobl i fod mor annibynnol mewn tasgau pob dydd ag sy'n bosibl<br>• Byddwn wedi darparu 425 o becynnau galluogi dwys i bobl yn eu cartrefi eu hunain a 36 o becynnau dwys yn yr Uned Gofal Tymor Byr<br>• Byddwn wedi gwerthuso gwaith yr uned a phrofiad defnyddwyr a chadarnhau achos fusnes o ran datblygiadau'r dyfodol |
| **Gofal Dydd a Chefnogaeth Anffurfiol**<br>**Bydd mwy o gefnogaeth ddydd ffurfiol ac anffurfiol ar gael i bobl hŷn** | • Byddwn yn cynnig cefnogaeth ddydd dementia newydd ym Mangor<br>• Byddwn wedi datblygu achos fusnes i adnabod potensial arbedion ym maes gofal dydd<br>• Byddwn wedi datblygu trefniadau cefnogaeth ddydd newydd yn Y Bala<br>• Bydd eglurder ar siap darpariaeth gofal dydd dementia ar draws |

| | |
|---|---|
| | Gwynedd<br>• Bydd 360 o bobl wedi derbyn cefnogaeth anffurfiol trw gytundeb Age Cymru |
| **Preswyl a Nyrsio**<br>**Bydd pobl hŷn bregus Gwynedd yn llai dibynnol ar ofal preswyl traddodiadol i'w cefnogi yn eu cymunedau.**<br><br>**Bydd mwy o ddewis gofal preswyl arbenigol dementia ar gael.**<br><br>**Byddwn yn rhesymoli'r ddarpariaeth preswyl yng Ngwynedd** | • Yn sgîl agor Awel y Coleg, byddwn wedi dadgomisiynu Cartref Bron y Graig yn Y Bala<br>• Bydd eglurder ar siâp y ddarpariaeth preswyl a nyrsio yn Ne Meirionnydd<br>• Uned o welyau ysbaid arbenigol wedi'i sefydlu mewn un ardal<br>• Byddwn wedi cynyddu mewn darpariaeth arbenigol dementia ar gael yn Arfon a lleihad yn nifer y gwelyau traddodiadol<br>• Byddwn wedi cytuno ar safon ansawdd disgwyliedig gofal preswyl yng Ngwynedd gan gynnwys ansawdd y gofal a'r ddarpariaeth a gofynion iaith<br>• Byddwn wedi cynyddu nifer y nosweithiau ysbaid gaiff eu darparu |
| **Tai Gofal Ychwanegol (TGY)**<br>**Bydd unedau tai gofal ychwanegol newydd ar gael yn cynnig darpariaeth llety a chefnogaeth gofal** | • **Bala -** 30 uned TGY wedi agor<br>• Bydd gwaith adeiladu wedi cychwyn ar safle TGY Bangor<br>• Bydd eglurder ar siap y ddarpariaeth newydd ym Mhorthmadog |
| **Tai Gwarchod**<br>**Datblygu modelau gofal i uchafu'r defnydd o dai gwarchod fel dewis llety ac yn eu gweithredu mewn cynlluniau ar draws Gwynedd** | • Byddwn wedi adnabod modelau gofal addas i dai gwarchod |
| **Addasiadau**<br>**Cyflymu'r broses i ddefnyddwyr** | • Byddwn Byddwn wedi adolygu ein prosesau ymhellach i sicrhau fod y lleihad mewn amser aros yn cael ei gynnal a'i wella er mwyn ymateb yn gynt i anghenion defnyddwyr<br>• Lleihau hyd gweithredu addasiadau i 290 |
| **Taliadau Uniongyrchol** | • Byddwn wedi adnabod y camau angenrheidiol i gynyddu'r nifer sy'n derbyn taliadau uniongyrchol ac yn gweithredu arnynt |

| 6.3.3 Teitl y Prosiect: Cefnogaeth Integredig i'r Teulu | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Teuluoedd gydag anghenion dwys yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig i'w galluogi i fagu eu plant yn effeithiol<br>• Plant, pobl ifanc,oedolion bregus a gofalwyr yn derbyn cefnogaeth briodol, amserol ac integredig yn unol á'u hanghenion | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| | • Eglurder o'r newydd yn dilyn cyhoeddiad gan y Llywodraeth ar drefniadau IFSS yng Ngwynedd o fewn trefniadau rhanbarthol<br>• Yn seiliedig ar yr eglurder newydd, cynllun gwaith wedi'i ddatblygu i gyflwyno model IFSS Gwynedd yn weithredol erbyn diwedd 2013 |

6.4 Gweler isod restr o'r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Nifer o becynnau teleofal arbenigol a ddarperir | - | 90+ Cynnydd o 30 yn flynyddol |
| Nifer o becynnau teleofal sylfaenol a ddarperir | 870 | 1010 Cynnydd o 5% yn flynyddol |
| Nifer sy'n derbyn pecyn o alluogi dwys | 200 | 390 Cynnydd o 25% yn flynyddol |
| Nifer y nosweithiau ysbaid gaiff eu darparu | - | Cynnydd o 5% yn flynyddol |
| Nifer sy'n derbyn cefnogaeth anffurfiol o fewn y gymuned | - | 1080 o bobl ychwanegol yn derbyn cefnogaeth anffurfiol |
| Nifer o unedau TGY ar gael yng Ngwynedd | 0 | 139 |
| Nifer y gwelyau preswyl | 689 | 599 |
| Nifer y gwelyau nyrsio | 412 | 310 |
| Hyd gweithredu addasiadau | 400 diwrnod | 320 |
| Nifer o oriau o ofal cartref mewn wythnos (ar gyfartaledd) | I'w Gadarnhau | I'w Gadarnhau |
| Canran y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | I'w Gadarnhau | I'w Gadarnhau |

## 7. CYNIGION YM MAES ADFYWIO A'R ECONOMI AR GYFER 2012/13

**7.1 Y Weledigaeth, Y Canlyniadau a'r Profiadau**

***Gweledigaeth***

Gweledigaeth y Rhaglen Adfywio a'r Economi yw:

*Bydd Gwynedd y dyfodol yn ffynnu – yn ardal fentrus a byrlymus yn economaidd a chymdeithasol, gyda'r Gymraeg yn ganolog i'w ffyniant, a gyda phobl o bob oed yn medru gafael yn y cyfleon newydd ac yn dewis aros yn yr ardal i fyw a gweithio.*

*Wrth wireddu hyn fe fyddwn yn talu sylw penodol i bobl heb waith, i bobl ifanc, i'r ardaloedd llai ffyniannus ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, fel bo pobl Gwynedd yn cael y cyfle gorau i fyw a gweithio yn yr ardal*.

Dyma'r uchelgais, ac mewn amseroedd economaidd anodd gyda chwtogi ar adnoddau fe fydd cyrraedd yr uchelgais hon yn daith tymor hir i'w chymryd dros nifer o gyfnodau, gan gychwyn yn 2011/14.

***Canlyniadau***
Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniadau yr ydym am weithio tuag atynt:-

**Canlyniad 1 :**
*Ffyniant Economaidd – Bydd economi Gwynedd yn ffynnu*

**Canlyniad 2 :**
*Bydd cyfleon teg i bawb fod yn rhan o'r byd gwaith, gyda phwyslais ar bobl ifanc dan 25 oed a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau*

**Canlyniad 3 :**
*Bydd Gwynedd yn lle cyffrous i fyw efo cymunedau byrlymus*

7.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi nod rhai Ymyraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol a newydd. Bydd gwaith yn digwydd yn ystod y flwyddyn i edrych ar y materion hyn, cwblhau gwaith dadansoddi / ymchwil ac ymchwiliadau cynhwysol i'r materion fel bod modd datblygu cynigion penodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i fywyd trigolion fel rhan o'r Cynllun Strategol o 2013 ymlaen.

**7.2.1 Maes: Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd**

**Yr Angen**

Mae ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd o'r sir wedi eu hadnabod ymysg y gwannaf yng Nghymru o ran e.e. nifer y swyddi ar gael a lefel incwm aelwydydd. Fodd bynnag, rhaid tyrchu o dan y data prif benawdau cenedlaethol ac is-ranbarthol i fesur gwir faint ac ystod y broblem, a'r mannau sy'n cael eu heffeithio fwyaf – gwybodaeth hanfodol i alluogi'r Cyngor i roi ei sylw i'r materion cywir a sicrhau fod el gynlluniau i'r dyfodol yn mynd i'r afael â'r prif heriau.

Mae gofyn felly am gynllun penodol i sgopio'r sefyllfa o ran cyflogaeth a ffyniant economaidd gan gymryd i ystyriaeth y ffactorau ar raddfa dearyddiaeth fwy lleol.

Edrychodd y Cyngor yn fanwl ar y sefyllfa o fewn ardal Meirionnydd yn 2010, ac yma bwriedir dilyn yr un patrwm ar gyfer adnabod yr angen yn ardal Llŷn ac Eifionydd.

**Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13**

Gwaith sgopio manwl i adnabod maint yr angen, lle mae'r angen, y cyfleon i'r ardal a'r mannau sydd angen sylw penodol (sy'n cyfateb i ran gyntaf y gwaith ar Gynllun Cyflogaeth Meirionnydd).

Bydd y gwaith sgopio yma hefyd yn ein galluogi i ddechrau datblygu cynllun cydlynnus i Wynedd gyfan fydd yn y man yn adnabod y blaenoriaethau a'r ymyraethau priodol ar gyfer gwahanol rannau'r sir.

| **7.2.2 Maes: Twristiaeth** |
|---|
| **Yr Angen**<br>Mae twristiaeth yn un o sectorau allweddol y sir, ac yn 2010 roedd yn gyfrifol am £851.69m o wariant yn yr economi leol, a 15,819 o swyddi.<br><br>Yn y blynyddoedd diwethaf sicrhawyd buddsoddiad Ewropeaidd sylweddol yn yr is-adeiledd, ac mae cyfleon pellach hefyd yn cael eu datblygu a'u sefydlu yn y sir o ran twristiaeth gyda photensial gwerth uchel e.e. yr Academi Hwylio ym Mhwllheli, Menter Canolfan Rhagoriaeth Eryri sy'n cynnig profiadau anturus yn yr awyr agored ar draws sawl lleoliad, cynllun Ein Treftadaeth, a chais Gwynedd am Safle Treftadaeth y Byd i'r ardaloedd llechi.<br><br>Mae'n amserol felly i ail-edrych ar sut gall busnesau twristiaeth ac economi'r sir, a thrigolion lleol, gysylltu gyda'r cyfleon newydd o ran gwaith a thynnu'r budd mwyaf ohonynt. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| Gwneud gwaith rhagbaratoi pellach ar gyfer cyflwyno cais am statws Safle Treftadaeth y Byd i'r ardaloedd llechi |
| Hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan o ragoriaeth, gan gefnogi'r diwydiant i ddatblygu a chydgyfeirio eu hymdrechion |
| Cydweithio i ddatblygu meysydd megis y sector awyr agored a'r sector diwylliant a threftadaeth sy'n ymestyn y tymor gwyliau ac yn denu gwariant uwch i'r economi leol |
| Cefnogi ymdrechion i ddatblygu agweddau fydd yn ychwanegu gwerth i'r cynnig twristiaeth lleol a'r economi e.e. mentrau tywyswyr |
| Sgopio cyfleon pellach a'r blaenoriaethau, gyda gwaith datblygu Cynllun Rheolaeth a Marchnata Cyrchfan yn mynd rhagddo eleni mewn partnriaeth efo'r sector breifat a chymunedau lleol er mwyn sefydlu'r cyfeiriad strategol a llunio cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod i ddod. |

| 7.2.3 Maes: Yr Agenda Wledig |
|---|
| **Yr Angen**<br>Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn rhestru ardaloedd Cymru yn ôl eu hamddifadedd gan ddefnyddio ystod o ddangosyddion ar lefel ardaloedd dearyddol yn seiliedig ar oddeutu 1,500 o drigolion. Gwêl y Cyngor fod natur amddifadedd gwledig yn bur wahanol i amddifadedd trefol sy'n fwy amlwg ac yn haws i'w weld, ac o fewn daearyddiaeth o'r fath caiff natur a dwysedd amddifadedd gwledig ei golli – ni chaiff e.e. gwir ymyledd ardaloedd gwledig na'u pellter o'r prif farchnaoedd economaidd eu hadnabod, na chwaith diffyg swyddi a diffyg cyfleon economaidd yn gyffredinol. Ni amlygir y tueddiadau demograffig o ran grwpiau oedran anghytbwys, a cholli pobl ifanc.<br><br>Defnyddir y rhestr hon fel un o brif ffactorau dyraniadau cyllidol Llywodraeth Cymru, ac felly mae'n effeithio'n uniongyrchol ar y cyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen i drigolion y sir. Mae'r Mynegai hefyd yn dylanwadu ar adnabyddiaeth llywodraeth o'r angen economaidd ar draws Cymru, ac mae felly yn dylanwadu ar benderfyniadau polisi allweddol a buddsoddiad mewn ymyraethau ac is-adeiledd.<br><br>Mae'r Cyngor wedi bod yn flaenllaw yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol gwledig eraill Cymru er mwyn ceisio datblygu trefn genedlaethol gydnabyddedig yn seiliedig ar ddangosyddion perthnasol i amgylchiadau gwledig, o ran y mathau o amddifadedd ac hefyd lefel y ddaearyddiaeth, a bydd angen i'r gwaith yma barhau.<br><br>Ar yr un pryd bydd gwatih sgopio Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd, ochr yn ochr â chynllun Meirionnydd, ynghyd â gwaith datblygol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, yn cynnig sail i ddechrau datblygu cynllun cydlynnus i Wynedd gyfan fydd yn y man yn adnabod y blaenoriaethau a'r ymyraethau priodol ar gyfer gwahanol rannau'r sir - ac i'r Cyngor adnabod ym mha feysydd y gall wneud y cyfraniad mwyaf. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| Cychwyn sgopio'r maes er mwyn adnabod y blaenoriaethau gweithredu gan roi sylw i themau megis:<br>gwaith i gadw teuluoedd yma; rôl canolfannau a threfi gwasanaeth yn gwasanaethu eu hardaloedd a'r potensial i wella eu perfformiad er budd trigolion y sir; sut i wneud y gorau o ddatblygu ardaloedd gwydn cydlynol fel gwrthbwynt i gysyniad y *City Regions*; adnabod effaith ofodol penderfyniadau ar ardaloedd mwy gwledig o fewn y sir. |

| **7.2.4 Maes: Newid mewn Budd-daliadau** |
|---|
| **Yr Angen**<br>▪ Mae'r drefn budd-daliadau yn cael ei newid yn sylfaenol a sylweddol o ganlyniad i'r Ddeddf Diwygio Lles a ddaeth i rym fis Mawrth 2012, a'r newid hwnnw i ddigwydd mewn cyfnodau rhwng 2013 a 2017;<br>▪ Bydd un taliad y **Credyd Cynhwysol** newydd yn cael ei weithredu yn lle'r Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceiswyr Gwaith (seiliedig ar incwm), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (perthnasol i incwm), Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith;<br>▪ Er bod ansicrwydd yn parahu ynglŷn manylion y newid, mae disgwyliad gan y Llywodraeth y bydd 60% o'r ceisiadau yn rhai ar-lein;<br>▪ Mae newidiadau eraill hefyd yn yn effeithio ar e.e. y Lwfans Byw efo Anabledd, Y Gronfa Gymdeithasol Disgresiynol (gan gynnwys Grantiau Gofal Cymdeithasol a Benthyciadau Argyfwng), Credyd Pensiwn a'r Budd-dal Treth Cyngor;<br>▪ Mae'r newidiadau yn rhoi pwyslais ar y cyswllt rhwng budd-daliadau a mynediad i waith;<br>▪ Mewn sefyllfa o wasgfa economaidd a diffyg swyddi o fewn yr ardal mae pryder y bydd rhai o bobl mwyaf bregus y sir yn dioddef, ac y bydd y newidiadau yma yn cynyddu tlodi, digartrefedd, diboblogi, colli arian o'r economi leol a phwysau ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus mewn cyfnod o grebachu;<br>▪ Mae'r Cyngor eisoes wedi sefydlu Grŵp Tasg gyda'i bartneriaid ac wedi cychwyn y drafodaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau - bydd y gweithredu amlinellir isod yn adeiladu ar y camau cyntaf yma. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| Mapio effaith newidiadau yn yr ystod o Fudd-daliadau ar drigolion Gwynedd, gan adnabod y grwpiau a'r ardaloedd gaiff eu heffeithio fwyaf o fewn y sir, ynghyd â graddfa'r effaith yn enwedig ar ein grwpiau mwyaf bregus. |
| Cymryd gorolwg o newidiadau pellach awgrymir fel mae'r agenda hon yn datblygu e.e. y syniad o bennu lefelau gwahanol i fudd-daliadau ar sail rhanbarthol, ac adnabod eu heffaith |
| Ar sail y wybodaeth uchod adnabod yr ymateb lleol i'r newidiadau gyda'n partneiriad, ac amlygu unrhyw ffynonellau cyllido posib |

7.3 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu. Wrth weithredu cynlluniau fe fydd sylw yn cael ei roi i dargedu'n ofodol, ac yn benodol i wyro prif raglenni i Feirionnydd:

| **7.3.1 Teitl y Prosiect: Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau (e.e. adnoddau craidd naturiol, amgylchedd, tirlun, iaith, diwylliant, hanes a thalentau lleol) i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi<br>• Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir<br>• Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>• Mwy o weithwyr ymhob rhan o'r sir yn derbyn cyflog sy'n nes at gyflog cyfartalog y DG<br>• Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg<br>• Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br>**(Sylwer y bydd y gweithgardeddau *Ynni Carbon Isel* nodir isod yn parhau, ond bydd ansicrwydd amserlen Wylfa B yn cael effaith ar amserlen gwireddu'r Buddion perthnasol)** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Dylanwadu'n strategol ar gyfeiriad a datblygiad cynllluniau Ynys Ynni a Wylfa B | |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Cefnogi gweithwyr safle Trawsfynydd a Wylfa i fanteisio ar gyfleon cyflogaeth newydd yn y dyfodol (Rhaglen Siapio'r Dyfodol) | |
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith a busnesau'r sir, ysgolion a'r colegau, ymlaen llaw i'w darparu ar gyfer y cyfleon a'r sgiliau fydd eu hangen, gan roi cymorth i rai efo diddordeb yn y diwydiant | |

| | |
|---|---|
| ***Ynni Carbon Isel:***<br>Adnabod a hyrwyddo cyfleon newydd i fusnesau Gwynedd yn deillio o ddatblygiadau o fewn y sector yn y rhanbarth | |
| ***Ynni Carbon Isel***<br>Yn dilyn ac o ganlyniad i'r gwaith sy'n mynd rhagddo, cryfhau cyswllt Ynys Ynni efo busnesau Gwynedd a hyrwyddo cyfleon tendro | Gofynion Gwynedd wedi eu cynnwys gan gynllun Ynys Ynni yn ei rhaglen gyfathrebu'r cyfleon gwaith a thendro |
| ***Ynni Carbon Isel***<br>Sicrhau fod cyfleon i leoli cwmniau cyflenwi a pheirianneg y sector mewn lleoliadau ar draws y Gogledd Orllewin | Bydd elfennau arbenigol y cyfleon cyflenwi i fusnesau wedi eu hamlygu a'u "gwerthu" i gwmniau o fewn y sector, a chwmniau yn cael eu targedu gyda phortffolio eiddo addas<br><br>***(DS: Gall y Budd yma lithro oherwydd ansicrwydd amserlen Wylfa B)*** |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Cefnogi mentrau economaidd cymunedol a gwledig i sefydlu cynlluniau cynyrchu ynni adnewyddol a meicro-gynhyrchu | Bydd y sail ar gyfer datblygu'r sector ynni adnewyddol yng Ngwynedd a'r cyfleon yn glir, o ganlyniad i'r gwaith sgopio cychwynnol<br><br>Bydd cymunedau a busnesau lleol yn ymwybodol o'r cyfleon meicro-gynhyrchu ar draws y sir<br><br>Trwy waith sgopio pellach o'r cyfleon ynni hydro mawr a thrafodaeth efo DEC byddwn wedi adnabod y cyfleon i Wynedd<br><br>Byddwn wedi adnabod y cyfleon i'r sir fod yn fwy hunan-gynhaliol o ran cynhyrchu a defnydd ynni |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Adnabod potensial ynni adnewyddol graddfa fwy i economi Gwynedd, gan sgopio a datblygu cyfleon addas | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Adnabod a hyrwyddo cyfleon newydd i fusnesau Gwynedd yn deillio o ddatblygiadau o fewn y sector yn y rhanbarth | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Codi ymwybyddiaeth pobl oed gwaith a busnesau'r sir, ysgolion a'r colegau, ymlaen llaw i'w darparu ar gyfer y cyfleon a'r sgiliau fydd eu hangen, gan roi cymorth i rai efo diddordeb yn y diwydiant | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Datblygu ac uchafu gwerth prif safleoedd ynni | Bydd unrhyw anghenion is-adeiledd ar gyfer datblygu tir Trawsfynydd fel safle waith i'r sector ynni adnewyddol wedi eu hadnabod |

| | |
|---|---|
| adnewyddol Gwynedd Werdd, gyda blaenoriaeth i safle Parth Menter Eryri | Bydd rhwystrau is-adeiledd penodol i ddatblygiad safle Trawsfynydd ar gyfer y sector ynni wedi eu harchwilio ymhellach a'r camau datrys wedi eu hadnabod |
| | Bydd potensial y safle fel *hub* ar gyfer sefydlu a thyfu busnesau a chyflenwyr y sector ynni yn nhrefi a phentrefi'r dalgylch wedi ei amlygu |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Cefnogi sefydlu safle sgilio ynni adnewyddol a pheirianneg yn ne Gwynedd | |
| ***Ynni Adnewyddol:***<br>Cyfrannu at sefydlu'r ddelwedd o'r sir fel 'Gwynedd Werdd' | |

<table>
<tr><td colspan="2">7.3.2 Teitl y Prosiect: Cadw'r Budd yn Lleol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Profiad/au:<br>• Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi<br>• Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>• Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg<br>• Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu</td></tr>
<tr><th>Gweithgareddau'r Prosiect</th><th>Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13</th></tr>
<tr><td rowspan="4">(i) Datblygu sectorau allweddol trwy uchafu budd economaidd cynlluniau cyfalaf mawr:<br>▪ Sector Greadigol – Pontio<br>▪ Sector Twristiaeth Treftadaeth ac Awyr Agored - Yr Academi Hwylio, Saflr Treftadaeth y Byd a Chanolfan Rhagoriaeth Eryri<br>▪ Sector Adeiladu - Cartrefi Cymunedol, Ysgolion newydd ac ail-ddatblygu safle Atomfa Trawsfynydd</td><td>Bydd anghenion busnesau'r sector greadigol, y cyfleon, a'r math o fusnesau all elwa wedi eu hadnabod</td></tr>
<tr><td>Bydd busnesau'r sector greadigol yn ymwybodol pa gyfleon sydd iddyn nhw (trwy waith hyrwyddo a marchnata</td></tr>
<tr><td>Bydd busnesau'r maes awyr agored yn glir o'r cyfleon yn ôl sectorau penodol ac ardal</td></tr>
<tr><td>Bydd busnesau yn y sector adeiladu wedi manteisio ar weithdai a seminarau tendro wedi eu teilwrio i gytundebau unigol</td></tr>
<tr><td>(ii) Ymateb i angen sectorau lleol i dderbyn mwy o'r budd o gynlluniau cyfalaf mawr trwy:<br>▪ eu cefnogi i fanteisio ar gyfleon caffael a bod yn fwy cystadleuol;<br>▪ glystyru busnesau a rhoi sylw i gadwyni cyflenwi;<br>▪ rhoi sylw i ddatblygiad y ddarpariaeth sgilio, darparu'r gweithlu a thargedu'r economaidd anweithredol</td><td>Bydd potensial llawn cymalau cymdeithasol wedi ei amlygu yn eglur i Reolwyr Prosiect y cynlluniau cyfalaf mawr, a swyddogion allweddol o fewn y Cyngor</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **(iii) Creu'r amodau i annog a hybu tŵf yr economi trwy:**<br>Sefydlu a gweithredu'r Gronfa Fuddsoddi | Bydd cwmniau lleol wedi derbyn benthyciad i fuddsoddi yn eu busnes |
| | Bydd busnesau a swyddi wedi eu diogelu trwy'r gefnogaeth roddwyd |
| **(iv) Tyfu Busnesau Cynhenid trwy:**<br><br>• Ddathlu llwyddiant cwmnïau lleol, gan hyrwyddo profiadau o lwyddo a rhannu storïau ymarfer da;<br><br>• Adnabod, cydweithio a chefnogi cwmnïau sydd efo diddordeb pendant ac uchelgais i dyfu, gan sefydlu rhaglen proffilio cwmnïau;<br><br>• Defnyddio'r llwyddiant yma fel sail i dreiddio trwy'r sector breifat ymhen amser | Bydd cynllun peilot i ddathlu llwyddiant wedi ei lansio |
| | Bydd gennym drefn mewn lle ar gyfer adnabod cwmniau cynhenid efo'r uchelgais i dyfu |
| | Byddwn wedi adnabod a chytuno'r cwmniau cynhenid ar gyfer eu proffilio ac i ddilyn rhaglen ddatblygu |
| | Bydd y cwmniau unigol wedi cytuno a chychwyn ar y rhaglen ddatblygu ar eu cyfer |
| | Bydd negeseon llwyddiant cwmniau lleol wedi eu rhannu |
| **(v) Cyfleon Datblygiadau Newydd**<br>Sefydlu trefn gyson o adnabod a chymryd gorolwg o ddatblygiadau mawr all ddod i Wynedd | Byddwn wedi sefydlu trefn fydd yn galluogi'r sir i fod ag adnabyddiaeth fuan o ddatblygiadau mawr newydd all ddod i'r sir a'u potensial, ac fel sail i baratoi trigolion a busnesau Gwynedd ar gyfer manteisio ar gyfleon newydd |

| 7.3.3 Teitl y Prosiect: **Gwynedd Ddigidol** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Trigolion yn elwa o economi sy'n manteisio fwy ar ei chryfderau i ddatblygu sectorau gwaith perthnasol a chreu swyddi<br>• Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir<br>• Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir<br>• Mwy o weithwyr ymhob rhan o'r sir yn derbyn cyflog sy'n nes at gyflog cyfartalog y DG<br>• Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg<br>• Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu<br>• Gwynedd yn cael ei chysylltu efo delwedd egnïol, gyffrous a man lle mae pethau yn digwydd<br>• Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cefnogi LlC yn rhagweithiol i sgopio anghenion technolegol y sir, mapio'r ddarpariaeth is-adeiledd a sefydlu Gwynedd fel ardal beilot | Bydd y sir yn manteisio o gytundeb LlC i fuddsoddi yn is-adeiledd TGCh Gwynedd yn fuan yn natblygiad y genhedlaeth nesaf o fandeang led led Cymru |
| | Yn ddibynol ar sicrhau cytundeb LlC i fuddsoddi yma, bydd rhaglen waith y Cyflenwyr i gwrdd ag anghenion Gwynedd mewn lle |
| Datblygu potensial rhwydwaith a chyfleusterau TGCh y Cyngor er mwyn cryfhau is-adeiledd ar draws y sir, ac i alluogi busnesau a thrigolion i gysylltu efo darparwyr gwasanaeth ac awdurdodau cyhoeddus | Bydd trigolion yn manteisio o ddarpariaeth diwifr newydd yn adeiladau cyhoeddus y Cyngor<br>(40 lleoliad yn cynnig mynediad cyhoeddus diwifr) |
| Cefnogi pobl Gwynedd i gael at y cronfeydd i ddileu'r *Heb-fannau* (*Not-spots)* | Bydd ardaloedd a chymunedau heb ymateb i'r grantiau wedi eu hadnabod ar gyfer sylw pellach |
| Amlygu potensial a hybu defnydd bandeang, a'r genhedlaeth nesaf e.e. ar gyfer gwasanaethau ar lein ac e.fasnachu | Bydd ymwybyddiaeth cwmnïau a phobl Gwynedd o bwysigrwydd a photensial TGCh i'w busnesau a'u bywydau wedi cynyddu |
| Datblygu a marchnata 2 begwn o safon rhyngwladol ar gyfer y sector digidol a data ar | Bydd unrhyw anghenion is-adeiledd ar gyfer datblygu tir Trawsfynydd fel safle waith i'r sector digidol a data wedi eu hadnabod |

| | |
|---|---|
| safle Parth Menter Eryri a hen safle Ferodo, gan hyrwyddo'r cyswllt E45 Ewrop/Iwerddon ag America a'r cyfleon cydweithio gyda Phrifysgolion | Bydd rhwystrau is-adeiledd penodol i ddatblygiad safle Trawsfynydd ar gyfer y sector digidol a data wedi eu harchwilio ymhellach a'r camau datrys wedi eu hadnabod |
| | Bydd anghenion penodol y sector digidol a data wedi eu deall ac yn hysbysu datblygiad y 2 safle |
| Cysylltu arloesedd a chyfleon digidol gyda sectorau eraill | Bydd Fforwm y Diwydiannau Creadigol wedi ei sefydlu er mwyn grymuso busnesau cyfryngol a chelfyddydol o fewn y sir i ddatblygu eu sector ymhellach a manteisio'n llawn ar gyfleon a thechnolegau newydd |
| | Byddwn wedi cymryd y camau cyntaf i greu *hub* ar gyfer y diwydiannau creadigol gan fanteisio ar bresenoldeb S4C a'r BBC yng Ngwynedd a chyfleon posib o ad-leoli o Gaerdydd. |

**7.3.4 Teitl y Prosiect: Trosglwyddo Arloesedd y Brifysgol I'r Economi Leol**

**Profiad/au:**

- Trigolion yn manteisio ar fwy o sectorau gwerth uchel perthnasol fydd wedi eu datblygu o fewn yr economi ac ar draws y sir
- Trigolion yn manteisio ar fwy o amrywiaeth o waith a swyddi ar draws y sir
- Mwy o weithwyr ymhob rhan o'r sir yn derbyn cyflog sy'n nes at gyflog cyfartalog y DG

| **Gweithgareddau'r Prosiect**<br><br>***Targedu'r Sector Feddygol a Gwyddonol*** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
|---|---|
| Cefnogi'r Brifysgol i sefydlu Cyfleuster Ymchwil Clinigol ym Mangor gan gydweithio i ddatblygu'r budd economaidd ehangach | Bydd y trefniadau ar gyfer model arloesol Rhith-Gyfleuster Ymchwil Clinigol wedi eu datblygu fel sail i'w sefydlu yn 2014, a'r cyfleon economaidd ehangach wedi eu hamlygu |
| Arwain ar y cyfleon i fusnesau, gweithlu a darpar weithlu Gwynedd | Bydd busnesau lleol wedi eu cysylltu efo'r Brifysgol, a'r cyfleon arloesedd i sectorau wedi eu hadnabod |
| | Bydd busnesau allanol sy'n arbenigo yn y sector feddygol, gwyddoniaeth a thechnoleg wedi eu targedu ac yn ymwybodol o'r cyfleon fydd ar gael i leoli yng Ngwynedd |
| Bod yn rhagweithiol yn cydweithio efo'r cyrff a sefydliadau perthnasol er mwyn sefydlu'r Ysgol Feddygol ym Mangor a datblygu'r cyfleon i gydleoli gwasanaethau iechyd | |

**7.3.5 Teitl y Prosiect: Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc**

**Profiad/au:**

- Mwy o drigolion ar draws y sir mewn gwaith, yn enwedig pobl ifanc
- Mwy o bobl fusnes y sir yn adrodd eu bod yn medru penodi gweithwyr lleol efo'r sgiliau priodol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg
- Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio

| Gweithgareddau'r Prosiect | Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13 |
|---|---|
| ***Prentisiaethau*** Datblygu a hybu prentisiaethau galwedigaethol ar draws y sir, gan fodelu a gweithredu'r dull gorau o gyflogi prentisiaid ifanc | |
| ***Prentisiaethau*** Targedu sectorau twf Ynni, yr Economi Werdd, Adeiladu a Gofal | Byddwn wedi sefydlu'r anghenion recriwtio ar gyfer y flwyddyn efo Gyrfa Cymru er mwyn cyrraedd at y cyflogwyr cywir |
| ***Prentisiaethau*** Lleoli prentisiaid efo busnesau lleol, yn ôl arbenigedd | |
| ***Prentisiaethau*** Adnabod meysydd a sectorau pellach i'w targedu, gan gynnwys y sector gyhoeddus a'r Cyngor fel cyflogwyr | Bydd potensial darparu prentisiaethau mewn sectorau eraill wedi ei adnabod trwy drafodaethau efo ystod o ddarparwyr arbenigol |
| | Bydd anghenion prentisiaethau sectorau pellach a'r darparwyr posib wedi eu hadnabod |
| | Bydd y darparwyr arbenigol i gydfynd efo gofynion Gwynedd mewn lle |
| | Bydd y mathau o swyddi prentisiaeth i'w cynnig gan y Cyngor fel cyflogwr wedi eu hadnabod a'u cytuno |
| | Byddwn wedi trafod gyda'r gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi eu hallanoli ac wedi mapio'r potensial fel sail i gyd-ddatblygu cynlluniau prentisiaeth |
| ***Hyfforddeion a Phrofiad Gwaith*** | Bydd y cyfleon ehangach i gyflogi hyfforddeion o fewn y Cyngor wedi eu hadnabod a fframwaith weithredu newydd wedi ei chytuno, gan dargedu meysydd o angen |

| | |
|---|---|
| | Bydd y Cyngor wedi cydweithio efo trefnwyr digwyddiadau mawr i sicrhau cyfleon profiad gwaith i bobl ifanc lleol |
| ***Cysylltu Graddedigion y sir gyda swyddi proffesiynol lleol – Bwrsariaeth Swyddi Allweddol***<br>Targedu pobl ifanc o Wynedd sy’n dilyn cyrsiau mewn meysydd proffesiynol lle bo prinder lleol e.e. Deintyddion neu feysydd proffesiynol eraill lle bo anhawster recriwtio pobl leol i lenwi swyddi gwag | Bydd darlun clir o’r anghenion mewn lle a sut i ymateb iddynt; |
| | Bydd y bylchau o ran penodi i swyddi proffesiynol allweddol wedi eu hadnabod o ran maint, y meysydd proffesiynol a’r patrwm gofodol, ac ymateb wedi ei ddatblygu |
| ***Cysylltu Graddedigion y sir gyda swyddi proffesiynol lleol – Bwrsariaeth Swyddi Allweddol***<br>Llunio opsiynau gweithredu ac amodau derbyn bwrsariaeth (e.e. cyfnod byw a gweithio yn y sir yn dilyn cymhwyso), a chynnal asesiad risg | Byddwn wedi cwblhau’r gwaith o asesu opsiynau a risgiau, a bydd y trefniadau a’r amodau cyllidol wedi eu cytuno ar gyfer cyflwyno’r Bwrsariaeth yn 2013/14 |
| ***Cysylltu Graddedigion y sir gyda swyddi proffesiynol lleol – Bwrsariaeth Swyddi Allweddol***<br>Sefydlu trefn gyson i adnabod swyddi proffesiynol gwag o fewn y sir yn y mesysydd wedi eu targedu, ac i’w hamlygu i’r myfyrwyr Bwrsariaeth | Byddwn wedi cychwyn targedu lleoliadau a meysydd recriwtio sy’n amlygu bylchau penodol fel sail gychwynnol i sefydlu trefn gyson ar gyfer adnabod swyddi proffesiynol gwag o fewn y sir |

| 7.3.6 Teitl y Prosiect: Goresgyn Rhwystrau i Waith | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Mwy o drigolion ar draws y sir mewn gwaith, yn enwedig pobl ifanc<br>• Mwy o aelwydydd ar draws y sir yn profi cynnydd yn eu hincwm, efo llai yn y bandiau incwm isaf<br>• Llai o blant yn byw mewn cartrefi tlawd | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Rhieni Sengl:** trwy weithredu mesurau *Genesis* | Bydd 64 rhiant yn symud ymlaen i waith a 128 rhiant yn symud ymlaen i addysg bellach |
| **Rhai mewn peryg o fod yn NEET:** trwy weithredu mesurau *Potensial* | Bydd 271 o bobl ifanc mewn peryg o fod yn NEET wedi eu cefnogi gan weithgareddau'r cynllun |
| **Rhai efo problemau iechyd meddwl:** trwy weithredu mesurau *Taith i Waith* | Bydd 5 Cyflogwr wedi mabwysiadu ac arwyddo'r siarter cyflogwyr |
| | Bydd 23 arall efo problemau iechyd meddwl wedi manteisio o hyfforddiant level 1 a 2 OCN |
| | Bydd 300 arall efo problemau iechyd meddwl wedi eu cefnogi i oresgyn rhwystrau i waith |
| **Pobl ifanc :** trwy weithredu mesurau gwedd newydd *Llwyddo'n Lleol* | Bydd 50 o bobl ifanc 11-19 oed wedi eu cyflwyno i sector tŵf – awyr agored |
| | Bydd 40 o bobl ifanc wedi manteisio o dderbyn bwrsariaeth i sefydlu menter |
| | Bydd pobl ifanc mewn 4 ysgol uwchradd wedi manteisio ar ddarpariaeth modiwlau Workskills |
| | Bydd pobl ifanc o fewn 2 sefydliad Addysg Bellach wedi manteisio o ddarpariaeth Workskills |

| **7.3.7 Teitl y Prosiect: Yma Mae Pethau'n Digwydd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Gwynedd yn cael ei chysylltu efo delwedd egnïol, gyffrous a man lle mae pethau yn digwydd<br>• Pobl ifanc yn gweld byw a gweithio yng Ngwynedd fel y dewis anturus, gyda mwy o bobl ifanc a theuluoedd oed gwaith yn dewis ac yn medru aros yn y sir i fyw a gweithio | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Sicrhau fod digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu neu sefydlu yng Ngwynedd<br>(9 digwyddiad) | Bydd yr ardal wedi elwa o 4 digwyddiad cenedlaethol neu ryngwladol |
| Cefnogi ardaloedd o fewn y sir i ddatblygu digwyddiadau efo'r potensial i gyfrannu at y ddelwedd o fwrlwm<br>(15 digwyddiad) | Bydd 4 digwyddiad strategol gan yr ardaloedd wedi eu cynnal |
| Datblygu arbenigedd yr ardal ym maes trefnu a chynnal digwyddiadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc a mentrau lleol | Bydd busnesau a mentrau Gwynedd o'r farn fod y sir yn fan lle mae pethau'n digwydd |
| | Byddwn wedi llunio rhaglen i roi sylw i ddatblygu gallu mentrau a busnesau lleol fel eu bod yn medru manteisio ar gyfleon cyflenwi nwyddau a gwasanaethau, ac i'r safonau disgwyliedig ar gyfer y maes digwyddiadau |
| | Trwy gydweithio gyda phartneriaid byddwn wedi rhoi cyfleon i bobl ifanc yr ardal fod yn rhan o drefniadau digwyddiadau |

| 7.3.8 Teitl y Prosiect: Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• Sawl tref mewn gwahanol rannau o'r sir wedi ail-ganfod eu pwrpas fel prif ganolfannau gwaith a gwasanaethau eu hardaloedd, ac yn fannau bywiog a deniadol i drigolion ac ymwelwyr<br>• Mwy o fusnesau Gwynedd yn ffynnu | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Marchnata a hyrwyddo canol trefi fel cyrchfannau siopa eu hardaloedd | Bydd busnesau canol trefi wedi manteisio o ymgyrchoedd i hyrwyddo siopa'n lleol |
| Rhoi sylw i resymoli'r stryd fawr trwy gynnal astudiaeth capasiti mânwerthu | Bydd gennym ddarlun clir o faint hyfyw ardal siopa o fewn canol trefi trwy'r astudiaeth capasiti mânwerthu fydd wedi ei chynnal, a bydd y canfyddiadau wedi eu bwydo i mewn i ddatblygiad y Cynllun Datblygu Lleol fel sail i weithredu |
| Rhoi sylw penodol i ddefnydd adeiladau gwag canol trefi<br>(i) Astudiaeth opsiynau, ymchwil marchnad etc<br>(ii) Treialu ac arddangos potensial defnydd siopau gwag | Bydd siopau dros dro wedi eu sefydlu i gyfrannu at fywiogrwydd canol trefi, treialu defnydd, a photensial adeiladau gwag wedi ei adnabod |
| Gwella delwedd ac amgylchedd canol trefi ar gyfer siopwyr ac ymwelwyr gan:<br>▪ Roi sylw i rai trefi ym Meirionnydd a Dwyfor (trefi gwahanol i'r rhai sy'n manteisio ar y Cynllun Adfywio Trefol Strategol<br>▪ Weithredu'r Cynllun Grant Gwella Tref (rhai trefi yn ardal Môn-Menai) | Bydd 1 Canol Tref arall wedi manteisio o sylw i wedd adeiladau masnachol, is-adeiledd trefol a chynlluniau tirweddu bychain |
| Datblygu sector fânwerthu canol trefi trwy gyngor arbenigol ac annibynnol i fusnesau unigol | Bydd 14 arall o fusnesau canol trefi wedi eu cynorthwyo a swyddi wedi eu diogelu |

7.4 Gweler isod restr o'r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt. Mae'r dangosyddion isod yn rhai ar gyfer adnabod tueddiadau dros gyfnod a'r newid tymor hir. Fe fydd cyrhaeddiad 2011-14 yn gorfod cael ei osod yng nghyd-destun y sefyllfa heriol i'r economi, a gallasai ein sefyllfa waethygu cyn gwella .

| **Dangosydd** | **Gwaelodlin** | **Cyrhaeddiad 2014** |
|---|---|---|
| ***Canlyniad 1*** | | |
| Cymhareb nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA : Gwynedd/Cymru/DG<br>(Cynnydd) | Gwynedd: 0.20:1<br>Cymru: 0.23:1<br>PF: 0.21:1 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Cymhareb nifer swyddi gwag i hawlwyr JSA: 3 Ardal Gwynedd<br>(Cynnydd) | Arfon: 0.19:1<br>Dwyfor: 0.42:1<br>Meirionnydd: 0.12:1 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| % swyddi yn ôl diwydiant yng Ngwynedd<br>*(Cynnydd mewn amrywiaeth, gyda sectorau targed yn cynyddu presenoldeb)* | • Amaethyddiaeth a physgota: 0.6%<br>• Adeiladu: 4.5%<br>• Bancio, cyllid, yswiriant ayb. (*cynnwys cyfryngau, gwybodaeth a thelecom*): 8.6%<br>• Egni a dŵr: 1.2%<br>• Dosbarthiad, gwestai a thai bwyta: 31.2%<br>• Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg & iechyd: 37.3%<br>• Cynhyrchu: 7.6%<br>• Trafnidiaeth a chyfathrebu: 3.6%<br>• Gwasanaethau eraill: 5.3% | Nod tymor hir na ellir ei mesur yn y tymor byr |
| Cyflog cymharol Gwynedd (tâl gros wythnosol)<br>(Cynnydd) | Gwynedd:<br>89.5% o ffigwr Cymru<br>81.4% o ffigwr y DU | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Cynnydd mewn goroesiad busnesau - Cymhareb genedigaethau i farwolaethau busnesau: Gwynedd/Cymru/DG | Gwynedd: 1.12<br>Cymru: 1.06<br>DU: 1.23 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Cynnydd yn y goroesiad busnesau - Cymhareb o enedigaethau i farwolaethau o fusnesau: Gwynedd / Cymru / y DU<br>(Cynnydd) | Gwynedd: 1.12<br>Cymru: 1.06<br>DU: 1.23 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |

| | | |
|---|---|---|
| Cofrestriadau TAW<br>• Gwynedd / Cymru / DU / Mynegai:<br>• Nifer Gwynedd | Indecs Gwynedd: 115.7<br>Indecs Cymru: 119.8<br>Indecs y DU: 124.5<br>Nifer Gwynedd: 6,250 | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| ***Canlyniad 2*** | | |
| Nifer o hawlwyr JSA o dan 25 oed<br>(Gostyngiad) | Nifer Gwynedd: 625 *(sef 30.5% o'r holl hawlwyr)* | Lleihau (sef cynnydd o'r sefyllfa bresennol) |
| % O'r bobl yn gweithio oedran mewn cyflogaeth<br>(Cynnydd) | Pobl mewn cyflogaeth: 67.6% | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Canolrif incwm cartrefi Gwynedd a'i 3 Ardal - cymhariaeth â Chymru a'r DU<br>(Cynnydd) | Gwynedd: £24,878<br>Cymru: £26,469<br>DU: £29,365<br>Arfon: £25,305<br>Dwyfor: £24,792<br>Meirionnydd: £24,360, | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| Cyfradd plant Gwynedd mewn teuluoedd di-waith<br>(Gostyngiad) | Gwynedd: 188 allan o 1,000 o blant<br>Cymru: 256 allan o 1,000 o blant<br>DU: 238 allan o 1,000 o blant | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| ***Canlyniad 3*** | | |
| Poblogaeth Gwynedd oed Gwaith fel % o'r boblogaeth<br>(Cynnydd) | Gwynedd: 62.2% | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| % O'r rhai 20-34 oed ymfudo o Wynedd<br>(Gostyngiad) | Gwynedd: 13.5% | Cynnal y sefyllfa mewn cyfnod heriol |
| % Bodlonrwydd trigolion ardaloedd Gwynedd o ran byw yn y sir a darparu gwasanaethau<br>(Cynnydd) | I'w sefydlu | I’w sefydlu |

## 8. CYNIGION YN Y MAES PLANT A PHOBL IFANC AR GYFER 2012/13

### 8.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes plant a phob ifanc yw:

*Bydd Gwynedd yn le sy'n rhoi'r cyfleoedd a phrofiadau gorau mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:

- *Gwell profiadau a chyfleoedd teg i blant a phobl ifanc Gwynedd.*

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder:

- *Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.*
- *Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.*
- *Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.*
- *Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.*
- *Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau.*

8.2 Mae’r Cyngor hefyd wedi nod rhai Ymyraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol a newydd. Bydd gwaith yn digwydd yn ystod y flwyddyn i edrych ar y mater allweddol hwn, cwblhau gwaith dadansoddi / ymchwil ac ymchwiliadau cynhwysol i’r mater fel bod modd datblygu cynigion penodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i fywyd trigolion fel rhan o’r Cynllun Strategol o 2013 ymlaen.

**8.2.1 Y Maes: Gwella Ansawdd Addysg**

**Yr angen am sylw:**

Er mwyn rhoi’r cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddatblygu’n llawn, mae angen sicrhau cysondeb yn ansawdd y profiadau a chyfleoedd a gynigir iddynt yn ein hysgolion. Mae hyn yn golygu cau’r bwlch rhwng disgyblion a’i gilydd, rhwng dosbarthiadau oddi fewn i’r un ysgol a rhwng ysgol ac ysgol drwy:

- Wella safonau isel a lledaenu arfer da;
- Godi safonau llythrennedd a rhifedd;
- Roi sylw i berfformiad treigl ysgolion (dros dair blynedd);
- Roi sylw i brofiad a chynnydd yr unigolyn drwy gytuno ar raglenni gwaith;
- Ddatblygu hyfforddiant priodol ar gyfer y gweithlu cyfan;
- Ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a gallu arweinwyr ac athrawon i ysbrydoli disgyblion;
- Ddatblygu sgiliau llywodraethwyr i fod yn gyfeillion beirniadol;
- Roi pwyslais ar holl waith o fewn y blynyddoedd cynnar;
- Wneud y defnydd gorau o’r Gwasanaeth Gwella Addysg Rhanbarthol.

**Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13**

Yn ystod 2012 / 13, bwriedir sefydlu sail tystiolaeth gadarn ar gyfer yr ymyrraeth allweddol drwy adnabod maint ac ehangder y ‘bwlch’ yng Ngwynedd. Mae’r Pwyllgor Craffu perthnasol wedi cytuno cefnogi’r gwaith drwy ymchwilio i agweddau o’r maes ac adnabod enghreifftiau o arfer da yng Nghymru a thu hwnt. Bydd y gwaith ymchwil yma yn arwain at bennu ymyraethau penodol i’w gweithredu o Ebrill 2013 ymlaen.

| 8.3.1 Teitl y Prosiect: Prosiect Torri'r Cylch (Cefnogi Teuluoedd) | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.<br>• Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| ***Gyda'n Gilydd***<br>Sefydlu modelau newydd ar gyfer cynllunio, comisiynu a darparu cefnogaeth i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn unol ag egwyddorion 'Torri'r Cylch' a'r rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' Llywodraeth Cynulliad Cymru. | ➢ Eglurder i fudd-ddeiliaid yn ei le ynglŷn â'r bwriadau comisiynu ar gyfer y maes cefnogi teuluoedd a rhiantu.<br>➢ Modelau yn eu lle ar gyfer darparu cefnogaeth integredig i deuluoedd ar draws y continwwm o angen.<br>➢ Tîm o Amgylch y Teulu wedi ei sefydlu ac yn derbyn cyfeiriadau am wasanaeth o'r tair ardal yng Ngwynedd.<br>➢ 60 o deuluoedd sydd mewn perygl o fod yn fregus wedi derbyn cefnogaeth integredig ac amserol yn unol â'u hanghenion ac yn adrodd fod y gefnogaeth honno wedi bod yn effeithiol. |
| ***Pontio***<br>Cyflwyno model gweithredu newydd er mwyn cefnogi pobl ifanc (11 i 19 oed) sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant a'u teuluoedd | ➢ 79 o bobl ifanc a'u teuluoedd wedi derbyn cefnogaeth. |

| 8.3.2 Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Plant, pobl ifanc a theuluoedd yn wynebu llai o anfantais oherwydd tlodi.<br>• Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.<br>• Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Trawsnewid y gwasanaethau a phrofiadau a gynigir i blant a phobl ifanc anabl a gwael drwy ddarparu gwasanaethau integredig ar y cyd rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. | ➢ Tîm Integredig wedi ei sefydlu ac yn darparu asesiadau a gwasanaethau ar y cyd i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn unol â safonau a mesurau cytunedig.<br>➢ Trefniadau mewn lle ar gyfer casglu barn plant, pobl ifanc a theuluoedd ar effeithiolrwydd a safon gwaith y Tîm Integredig.<br>➢ Trefniadau cydweithio gyda'r Trydydd Sector wedi eu hymestyn er mwyn cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd plant a phobl ifanc anabl a gwael sy'n disgwyl am asesiad proffesiynol. |
| Cynllunio i gynnwys gwasanaethau addysg yn llawn yn y trefniant cydweithio ffurfiol. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnwys gwasanaethau addysg yn llawn yn y trefniant cydweithio ffurfiol. |

| **8.3.3 Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda Phroblemau Ymddygiad** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.<br>• Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.<br>• Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cryfhau'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc bregus a'r rhai gyda phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif. | ➢ Pob Ysgol Uwchradd yng Ngwynedd yn derbyn gwasanaeth gan y Cyngor er mwyn eu galluogi i weithredu eu strategaethau ar gyfer cefnogi a chynnal disgyblion gyda phroblemau ymddygiad yn llawn o fewn eu sefydliadau.<br>➢ Trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer cydlynu a hwyluso mynediad disgyblion gyda phroblemau ymddygiad at y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt o fewn ysgolion. |
| Sefydlu darpariaeth newydd er mwyn cynnig cefnogaeth a phrofiadau addysgol addas i blant a phobl ifanc gydag anghenion emosiynol a chymdeithasol dwys. | ➢ Arbediad refeniw gwerth £100k wedi ei sicrhau.<br>➢ Eiddo a safle Ysgol Arbennig Coed Menai wedi eu gwaredu a'r adnoddau wedi eu buddsoddi yn y ddarpariaeth newydd. |

| **8.3.4 Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Rhieni a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth amserol sydd yn fwy integredig ac sydd wedi ei gynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion.<br>• Plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol yn derbyn cyfleoedd a phrofiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar sail eu hanghenion er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.<br>• Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Trawsnewid y ddarpariaeth a gynigir i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol drwy sefydlu model o ddarparu ar gyfer disgyblion gydag ADY ar sail arfer dda. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer y ddarpariaeth i'r dyfodol yn dilyn cwblhau Cam Un o'r Adolygiad Strategol o'r maes.<br>➢ Cyllid wedi ei ddatganoli'n llawn i ysgolion ar draws pob sector.<br>➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r model mwyaf addas o ddarparu cefnogaeth a phrofiadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. |

| 8.3.5 Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Sefydlu rhwydwaith o sefydliadau addysgol (cynradd ac uwchradd) o'r math cywir er mwyn cynnig y profiadau dysgu gorau posibl i holl ddysgwyr y Sir. | ➢ Y gwaith o ddatblygu rhwydwaith o ysgolion yn ardal ddwyreiniol dalgylch y Gader bydd yn addas i bwrpas ac yn cynnig profiadau gorau posib i ddysgwyr cynradd yr ardal wedi cychwyn.<br>➢ Y gwaith o sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy wedi cychwyn.<br>➢ Trefniadau cydweithio a rhannu adnoddau ac arbenigeddau rhwng ysgolion wedi eu sefydlu yn dilyn ffederaleiddio Ysgolion Corris a Phennal a hefyd Ysgolion Coedmawr a Glanadda.<br>➢ Cynllun Blaenoriaethau yn ei le yn seiliedig ar y Strategaethau priodol ac sy'n gosod rhaglen waith ar gyfer cynnal trafodaethau i gynllunio ar gyfer darpariaeth addysgol traws-sector mewn gwahanol rannau o'r Sir i'r dyfodol.<br>➢ Darpariaeth addysgol Ysgol OM Edwards yn Llanuwchllyn yn cael ei datblygu a'i chryfhau drwy ymestyn ei dalgylch i gwmpasu dalgylch Ysgol Y Parc gyda'r datblygiad yno yn addas i bwrpas ac yn cynnig profiadau gorau posib i ddysgwyr cynradd yr ardal.<br>➢ Y gwaith o ddatblygu rhwydwaith o ysgolion yn nalgylch Tywyn yn addas i bwrpas ac yn cynnig profiadau gorau posib i ddysgwyr cynradd yr ardal yn mynd yn ei flaen.<br>➢ Ysgol Ardal newydd yn cael ei hadeiladu a'i datblygu ym Mro Dysynni a fydd yn darparu profiadau addysgol i blant yr ardal. Rhwydwaith trefol a gwledig yn cynnig profiadau eang i ddisgyblion yr ardal a dewisiadau cynaliadwy i rieni. |

| | |
|---|---|
| | ➢ Trafodaethau pellach wedi eu cynnal i gael cynllun yn ei le i sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes yn nhref Dolgellau a fydd yn darparu a chynnig y profiadau dysgu gorau posibl i holl ddysgwyr yr ardal. |
| Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes. | ➢ Yr amgylcheddau dysgu yn y broses o gael eu gwella mewn ysgolion yn nalgylch Tywyn (Ysgol ardal Bro Dysynni; Ysgol Penybryn; Ysgolion Corris a Phennal) drwy wella cyfleusterau ac adeiladau fydd yn sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes<br>➢ Yr amgylcheddau dysgu yn y broses o gael eu gwella yn ysgolion dwyrain dalgylch y Gader (Ysgol ardal aml-safle Brithdir a Dinas Mawddwy; a chynlluniau yn cael eu datblygu ar gyfer ysgol gynradd Dolgellau ac ar gyfer sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes dalgylch y Gader) drwy waith gwella cyfleusterau ac adeiladau a fydd yn sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes. |
| Cynllunio i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad addysgol grwpiau penodol o ddysgwyr a gwella sgiliau pobl ifanc. | ➢ Cynllun mewn lle ar gyfer rhoi sylw i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad grwpiau penodol o ddysgwyr a gwella sgiliau pobl ifanc.<br>➢ Cynlluniau yn cael eu gweithredu o fewn y maes blynyddoedd cynnar er mwyn paratoi plant yn well i gyflawni eu potensial dysgu llawn. |

| 8.3.6 Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.<br>• Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 er mwyn rhoi mynediad i bobl ifanc at fwy o gyrsiau academaidd a galwedigaethol a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith drwy wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol y model sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd.<br>➢ Partneriaid wedi cytuno ar yr opsiwn a'r prif gerrig milltir fel sail ar gyfer sefydlu trefn Consortiwm Cynllunio a Darparu Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. |

| **8.3.7 Teitl y Prosiect: Prosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br><br>• Plant a phobl ifanc yn derbyn profiadau dysgu o safon mewn sefydliadau addysgol o'r math cywir.<br>• Pobl ifanc yn cael mynediad gwell at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro a mwynhau. | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol i bobl ifanc a'r cyfle i ennill achrediadau cydnabyddedig. | ➢ Cynnydd yn y nifer o achrediadau cydnabyddedig sy'n cael eu hennill gan bobl ifanc drwy ddarpariaethau ieuenctid y Sir. |
| Cefnogi pobl ifanc i wirfoddoli. | ➢ Cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy'n ymgymryd â gweithgarwch gwirfoddol drwy gyfleoedd a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid. |
| Sicrhau darpariaeth rhwydwaith o wasanaethau, profiadau a chyfleoedd ieuenctid integredig ar sail 5 dalgylch. | ➢ Eglurder yn ei le ynglŷn â'r ddarpariaeth ieuenctid ym mhob un o'r 5 dalgylch. |
| Gwella'r ddarpariaeth, profiadau a chyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc 18 a 25 oed. | ➢ Cynnydd yn y profiadau dysgu anffurfiol sydd ar gael i bobl ifanc 18 a 25 oed gan y Gwasanaeth Ieuenctid. |

8.4 Gweler isod restr o'r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
| --- | --- | --- |
| Y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 | 13.94% | Lleihau |
| Y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 3 | 30.26% | Lleihau |
| Canran y plant 3 oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd wedi gwneud cynnydd datblygiadol ers eu hasesiad SOGS (Atodlen o Sgiliau Tyfu) yn 2 oed | 72.4% | Cynyddu |
| Canran y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 49.13% | Lleihau |
| Canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 | 42.10% | Cynyddu |
| Canran y disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n llwyddo i ennill y Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 3 | 23.10% | Cynyddu |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd o'r ysgol gan bob gwaharddiad cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion | 129.01 | Lleihau |
| Amrediad maint dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd | 5 i 33 | Lleihau |
| % y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | 3.60% | Lleihau |

## 9. CYNIGION YN Y MAES AMGYLCHEDD AC ISADEILEDD AR GYFER 2012/13

### 9.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Amgylchedd ac Isadeiledd yw:

*Hybu amgylchedd sy'n ddiogel, gyda thai addas a chysylltiadau hwylus a defnyddiol i Wynedd a'i thrigolion yng ngwyneb newidiadau yn lleol ac yn y byd o'n cwmpas.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniadau yr ydym am weithio tuag atynt:

- *Amgylchedd sy'n ddiogel a chynaliadwy*
- *Cyflenwad o dai addas yn y Sir*
- *Cysylltiadau hwylus a defnyddiol*

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniadau mewn mwy o fanylder:

- *Llai o wastraff yn mynd i'w dirlenwi*
- *Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil o fewn y sir*
- *Pobl o dan fygythiad o lifogydd yn ymwybodol o'r risg*
- *Gwell mynediad i dai fforddiadwy, i'w berchen a'i rentu*
- *Mwy o gyflenwad tai addas ar gael yn y Sir*
- *Darpariaeth cludiant yn cwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr*
- *Lleihad y problemau a achosir gan gŵn yn baeddu*

9.2 Mae’r Cyngor hefyd wedi nod rhai Ymyraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol a newydd. Bydd gwaith yn digwydd yn ystod y flwyddyn i edrych ar y mater allweddol hwn, cwblhau gwaith dadansoddi / ymchwil ac ymchwiliadau cynhwysol i’r mater fel bod modd datblygu cynigion penodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i fywyd trigolion fel rhan o’r Cynllun Strategol o 2013 ymlaen.

| **9.2.1 Y Maes: Balchder Bro** |
| --- |
| **Yr Angen am sylw:**<br>• Yr angen i addysgu a chodi ymwybyddiaeth unigolion am eu swyddogaeth hwy o safbwynt gwarchod a gwella eu hamgylchedd leol.<br>• Yr angen i ddatblygu ymdeimlad ymysg unigolion tuag at eu hamgylchedd leol.<br>• Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd amgylcheddol.<br>• Sicrhau bod unigolion a chymunedau yn cymryd cyfrifoldeb dros warchod eu hamgylchedd leol ac yn gweithredu er mwyn sicrhau gwelliannau parhaol i wella ei ansawdd. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| ▪ Cynnal asesiad o lwyddiannau Cynllun Balchder Bangor ac adnabod sut y gellid ei addasu er mwyn ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill o fewn y Sir.<br>▪ Datblygu Cynllun Balchder Bro ac adnabod ardaloedd o fewn y Sir i gyflwyno’r Cynllun o 2013 ymlaen.<br>▪ Adnabod cyfleon i gydweithio o fewn y Cyngor a gyda asiantaethau eraill o fewn y sector gyhoeddus, preifat a chymunedol. |

| **9.2.2 Y Maes: Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai** |
|---|
| **Yr Angen am sylw:**<br>• Nifer o bolisiau a chynlluniau gweithredol yn y maes tai a chynllunio sy'n cyfrannu tuag at yr agenda hyn ond angen asesiad wedi ei gynnal o'r modd mwyaf effeithiol o ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy.<br>• Adnabod dulliau newydd o ddarparu tai fforddiadwy i bobl leol.<br>• Adnabod y modd mwyaf effeithiol o gynorthwyo cyplau ifanc i gael mynediad i dai fforddiadwy.<br>• Yr angen i adeiladu sail tystiolaeth ar gyfer gweithredu effeithiol yn y maes i'r dyfodol. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| ▪ Cynnal adolygiad a dadansoddiad o effeithlonrwydd polisïau a chynlluniau y Cyngor yn y maes tai a rhai agweddau o gynllunio er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o dai addas a fforddiadwy i bobl leol gan gynnwys cyplau ifanc.<br>▪ Cytuno ar raglen waith a blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y dyfodol. |

9.3 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **9.3.1 Teitl y Prosiect: Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Ynni mewn adeiladau annomestig | ▪ Sicrhau lleihad o 14% mewn allyriadau $CO_2$ sy'n deillio o ddefnydd ynni yn adeiladau annomestig sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. |
| Teithiau Busnes | ▪ Sicrhau lleihad o 20% mewn allyriadau $CO_2$ sy'n deillio o deithiau ar fusnes sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. |
| Gwastraff | ▪ Sicrhau lleihad o 603 tunnell $CO_2$ sy'n deillio o weithgareddau gwastraff cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. |
| Sector Gymunedol/Busnes | ▪ Byddwn wedi sefydlu trefn i gydgordio gweithgareddau lleihau carbon yn y sector gymunedol a busnes yng Ngwynedd er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at gymorth. |

| **9.3.2 Teitl y Prosiect: Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Lleihau allyriadau carbon | ▪ Sicrhau lleihad o 17% yn allyriadau carbon y Cyngor. |

| **9.3.3 Teitl y Prosiect: Strategaeth Wastraff** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Llai o wastraff yn mynd i'w dirlenwi** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Lleihau gwastraff a chynyddu lefelau ailgylchu/compostio | Byddwn wedi ailddefnyddio/ailgylchu/compostio 53% o'r gwastraff trefol a gesglir yn y Sir.<br>Ailddefnyddio – 8%<br>Ailgylchu – 26%<br>Compostio – 19%<br>▪ Bydd canran lefelau ailgylchu/compostio gwastraff masnachol yn 40% |
| Trefniadau casglu bwyd yn wythnosol a'i drin | ▪ Bydd lleiafswm o 4,500 tunnell o wastraff bwyd wedi gasglu yn y Sir ar gyfer ei gompostio<br>▪ Bydd lefelau cyfranogiad o safbwynt compostio bwyd wedi cynyddu i 50% o ganlyniad i ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth. |

| **9.3.4 Teitl y Prosiect: Rheoli Risg Llifogydd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl o dan fygythiad o lifogydd yn ymwybodol o'r risg** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cynyddu ymwybyddiaeth a gwella paratoadau ar gyfer risg llifogydd | • Byddwn wedi sefydlu lefelau ymwybyddiaeth o risg llifogydd a sut i ymateb i'r risgiau hyn yng nghymunedau Pwllheli, Tywyn, Dyffryn Ardudwy, Bangor, Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Dolgellau<br>• Bydd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd ac ymgynghori ar fesurau er mwyn lleihau'r risgiau wedi eu cynnal yng nghymunedau Pwllheli, Tywyn, Dyffryn Ardudwy, Bangor, Caernarfon, Blaenau Ffestiniog, Porthmadog a Dolgellau<br>• Bydd fersiwn drafft o Strategaeth Risg Llifogydd ar gyfer Gwynedd wedi ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol a gofynion Deddf Llifogydd a Dŵr 2010. |

| 9.3.5 Teitl y Prosiect: Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Gwell mynediad i dai fforddiadwy, i'w berchen a'i rentu** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| • Cydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy anghenion cyffredinol<br>• Darparu mentrau i hwyluso mynediad i brynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai (yn cynnwys cynllun blaendaliadau morgais a Chymorth Prynu) neu gadw perchnogion yn eu cartrefi (achub morgais)<br>• Gweithio gyda pherchnogion tai gwag i'w dychwelyd i ddefnydd fforddiadwy<br>• Cydweithio gyda datblygwyr/tirfeddianwyr preifat er darparu unedau fforddiadwy preifat (heb sybisidi cyhoeddus)<br>• Cydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig i ddarparu unedau fforddiadwy arbenigol yn y maes Tai Gofal Ychwanegol<br>• Sicrhau cydweithio agos rhwng landlordiaid preifat a Swyddogion Cynllun Lesu Sector Breifat Cyngor Gwynedd<br>• Rheolaeth ar dai haf | ▪ Bydd cytundeb ar flaenoriaethau dyraniad Grant Tai Cymdeithasol i Wynedd<br>▪ Bydd 75 (128 cronnus er dechrau 2011/12) o unedau tai fforddiadwy wedi eu darparu o ganlyniad i gydweithio gyda chymdeithasau tai cofrestredig, prynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai, perchnogion cartrefi, perchnogion tai gwag, datblygwyr/tirfeddianwyr, cymdeithasau tai cofrestredig (Tai Gofal Ychwanegol) a landlordiaid preifat |

| **9.3.6 Teitl y Prosiect: Tai Gwag nôl i ddefnydd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Mwy o gyflenwad tai addas ar gael yn y Sir** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| • **Cynlluniau benthyciadau**<br>• **Mesurau gorfodaeth**<br>• **Cynlluniau grantiau**<br>• **Mesurau anogaeth** | Bydd 50 (90 cronnus er dechrau 2011/12) o eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o ganlyniad i:<br>• Gynlluniau benthyciadau<br>• Mesurau gorfodaeth<br>• Cynlluniau grantiau<br>• Mesurau anogaeth |

| **9.3.7 Teitl y Prosiect: Cynllun ôl-troed carbon tai** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cynllun Yma i Helpu | • Bydd 600 o gartrefi o fewn 5 ward wedi derbyn cyngor ar ynni a/neu fesurau arbed ynni am ddim gan Gynllun Yma i Helpu. |
| Mapio gweithgaredd effeithlonrwydd ynni | • Bydd ardaloedd o fewn y Sir wedi eu hadnabod ar gyfer cynnal ymgyrchoedd i leihau allyriadau carbon.<br>• Bydd Arolwg Tai Sector Breifat wedi ei gynnal a fydd yn gosod gwaelodlin o safbwynt ôl troed carbon y sector.<br>• Bydd 200 o gartrefi mewn 2 ardal wedi elwa o ymweliadau cyngor ynni yn y cartref. |
| Manteisio ar gyfleoedd amrywiol | • Bydd o leiaf 150 o dai yng Ngwynedd wedi derbyn gosodiadau ynni adnewyddol.<br>• Bydd pob cartref yng Ngwynedd wedi derbyn gwybodaeth ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael gyda'r "Renewable Heat Incentive (RHI)" |

| | |
|---|---|
| ARBED2 | • Bydd penderfyniad wedi ei wneud o safbwynt pa brosiectau ddylai fod yn rhan o gynnig/gynigion Gwynedd ar gyfer ARBED 2 – Cylch 2. |

| **9.3.8 Teitl y Prosiect: Cludiant Integredig** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Darpariaeth cludiant yn cwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Ail ddylunio darpariaeth cludiant cyhoeddus | ▪ Bydd gwaelodlin wedi ei sefydlu o safbwynt lefel bodlonrwydd a defnydd cludiant gyhoeddus.<br>▪ Bydd gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn ardal Dwyfor wedi eu hailfodelu i ddarparu gwasanaethau mewn modd cost effeithiol. |
| Cludiant Cymunedol dibynadwy a hygyrch | ▪ Bydd ceisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu mewn 92% o achosion.<br>▪ Byddwn yn deall bodlonrwydd defnyddwyr o safbwynt darpariaeth cludiant cymunedol ar gyfer y flwyddyn<br>▪ Bydd 2 gytundeb cludiant cymunedol newydd wedi eu dynodi<br>▪ Bydd trigolion o fewn un gymuned yn y Sir wedi elwa o gynllun peilot i hyrwyddo rhannu ceir ar gyfer siwrnai lleol. |

| **9.3.9 Teitl y Prosiect: Gorchmynion Rheoli Cŵn** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Lleihad yn y problemau a achosir gan gŵn yn baeddu** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Sefydlu Trefn Gorchmynion Cŵn | ▪ Trefn Gorchmynion Rheoli Cŵn drafft wedi eu llunio.<br>▪ Ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal o'r Gorchmynion Rheoli Cŵn Drafft.<br>▪ Ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi ei chynnal i gyd-fynd a'r ymgynghoriad.<br>▪ Trefn Gorchmynion Rheoli Cŵn newydd wedi ei sefydlu ar gyfer y Sir.<br>▪ Bydd gwaelodlin wedi ei sefydlu ar gyfer achosion o gŵn yn baeddu ar diroedd hamdden a threfn wedi ei sefydlu ar gyfer monitro y sefyllfa. |

9.4 Gweler isod restr o'r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Canran o wastraff bwrdeistrefol wedi ei gasglu: | | |
| (i) wedi ei ailgylchu | 23% | 26.00% |
| (ii) wedi ei gompostio neu ei drin yn fiolegol | 25% | 28.00% |
| (iii) wedi ei ailddefnyddio | I'w gadarnhau | 0.50% |
| Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol | 20% | 50.00% |
| Lleihad ôl-troed carbon y gymuned yng Ngwynedd | | |
| (1) anheddau | 3% | 3% yn flynyddol |

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| (2) busnes | 3% | 3% yn flynyddol. |
| (3) teithiau busnes | Dim targed 2011/12 | 20% (erbyn 2012/13) |
| (4) gwastraff | Dim targed 2011/12 | Gostyngiad o 603 tunnell $CO_2$ (erbyn 2012/13) |
| Arbedion refeniw blynyddol yn sgil lleihau ôl-troed carbon | Dim targed 2011/12 | £924,214 [2014/15] (Arbedion cronnus er 2010/11) |
| Lleihad yr allyriadau carbon y Cyngor | 14.00% | 20.00% |
| Dealltwriaeth y gymuned o'r risg llifogydd | Dim targed 2011/12 | Astudiaethau dealltwriaeth wedi eu cwblhau mewn 8 cymuned a gwaith wedi ei wneud i gynyddu dealltwriaeth (Caernarfon, Bangor, Porthmadog, Dolgellau, |
| Nifer tai gwag hirdymor yn y sir [6 mis a drosodd] wedi dod nôl i ddefnydd | 40 | 130 |
| Nifer o unedau fforddiadwy ychwanegol a sicrhawyd i Wynedd (boed yn dai o'r newydd neu ddefnydd o eiddo presennol) | 53 | 190 o unedau fforddiadwy ychwanegol |
| Gosodiadau ynni adnewyddol domestig sydd wedi derbyn "Feed in Tariff (FIT)/ 'Renewable Heat Incentive (RHI)' | 75 | Targed i'w sefydlu yn ystod 2011/12 |

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth gymunedol ddibynadwy sy’n hygyrch ar draws y Sir. | 88% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. | 96% o geisiadau am ddarpariaeth cludiant cymunedol yn cael eu gwireddu ar draws y Sir. Cynnydd o 10% mewn dibynadwyedd cludiant cymunedol |
| Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi. | I'w Gadarnhau | I'w Gadarnhau |
| Cyfanswm pwysau gwastraff bwyd a gesglir | I'w Gadarnhau | I'w Gadarnhau |
| Lefelau bodlonrwydd a defnydd o gludiant cyhoeddus | I'w Gadarnhau | I'w Gadarnhau |

## 10. CYNIGION YN Y MAES TRAWSFFURFIO AR GYFER 2012/13

### 10.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

Gweledigaeth y Rhaglen Trawsffurfio yw:

*Cyngor fydd wedi adeiladu ar ei gryfderau gan greu amgylchedd sydd yn caniatáu pobl i fod yn:*

- *Flaengar a Mentrus,*
- *Effeithiol ac Effeithlon,*
- *Agored a Gofalgar,*
- *Cadarn ond Ystwyth.*

*Er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory.*

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

- *Cyngor ar ei orau sydd yn cyflawni i bobl Gwynedd heddiw ac yfory*

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt*
- *Mwy o bobl a chymunedau hyderus efo'r gallu i ddatblygu eu hatebion eu hunain a bod yn fwy hunangynhaliol*
- *Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.*
- *Mwy o staff yn teimlo eu bod yn rhan o'r Cyngor ac yn cael eu gwerthfawrogi*
- *Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o'r canlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth*
- *Gwell gwasanaethau drwy gyfres o newidiadau arloesol*

10.2 Mae’r Cyngor hefyd wedi nod rhai Ymyrraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol a newydd. Bydd gwaith yn digwydd yn ystod y flwyddyn i edrych ar y mater allweddol hwn, cwblhau gwaith dadansoddi / ymchwil ac ymchwiliadau cynhwysol i’r mater fel bod modd datblygu cynigion penodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i fywyd trigolion fel rhan o’r Cynllun Strategol o 2013 ymlaen.

| **10.2.1 Y Maes: Siâp y Cyngor** |
| --- |
| **Yr Angen am sylw:**<br>• Diffyg Adnoddau / Sefyllfa Ariannol<br>• Y cyd-destun lleihad sylweddol mewn adnoddau, rhaid cytuno sut mae’r cyngor am weithredu i gyflawni ei gyfrifoldebau a blaenoriaethau. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| • Penderfynu ar gyfeiriad Comisiynu’r Cyngor i’r dyfodol.<br>• Yn ychwanegol i’r ymdrechion i leihau ein costau datblygu strategaethau hefyd i leihau’r gofyn am wasanaethau trwy ymdrechion ataliol a rhannu’r baich gyda dinasyddion. |

**10.2.2 Y Maes: Cwsmer yn Gyntaf**

**Yr Angen am sylw:**

Mae'r gwaith o sefydlu Strategaeth Gofal Cwsmer wedi arwain i'r casgliad, er mor bwysig ydynt, mai nad drwy newid rhai agweddau ymylol fel dulliau mynediad at wasanaethau; newid dulliau darparu gwasanaeth a datgan safonau sylfaenol yn unig y mae gwella gofal cwsmer go iawn ond fod angen hefyd canolbwyntio ar newid diwylliant o fewn y Cyngor a thrawsffurfio'r ffordd y mae pethau yn cael eu gwneud o fewn y Cyngor.

Rydym wedi adnabod os am fedru rhoi'r cwsmer yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud (ac yn y cyswllt yma mae holl ddinasyddion y sir yn gwsmeriaid i ni) bydd angen sicrhau fod gennym –

- Staff sydd wedi eu grymuso i weithredu'n hyblyg i gyflawni anghenion y cwsmer;
- Rheolwyr sydd "yn y gwaith" yn grymuso staff, yn deall anghenion cwsmeriaid a chael gwared a rhwystrau;
- Trefniadau ymgysylltu priodol i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn;
- Cyfundrefnau cyflogaeth sy'n arfogi staff ac yn atgyfnerthu ymddygiadau er mwyn rhoi'r cwsmer yn ganolog;
- Cyfundrefn berfformiad sy'n mesur a ydym yn cwrdd ag anghenion dinasyddion ac yn rhoi gwerth am arian;
- Polisïau sy'n cefnogi cyflawni anghenion y cwsmer yn hytrach na chreu rhwystrau;
- Trefniadau darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar greu gwerth i'r cwsmer;
- Arweinyddiaeth sy'n amlygu bod gofal cwsmer yn bwysig ac yn cynnal y weledigaeth;
- Trefniadau Llywodraethu sy'n seilio penderfyniadau ar sail tystiolaeth o effaith ar gwsmeriaid.

Mae nifer o'r materion hyn wedi bod yn derbyn sylw o fewn rhaglen trawsffurfio'r Cyngor eisoes ond mae angen i ni asesu a yw'r hyn sy'n cael ei wneud yn y prosiectau unigol yn mynd a ni i'r un cyfeiriad ac am ein tywys i'r darlun a roddir uchod ynteu a oes yna fylchau o hyd.

**Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13**

- Adolygiad o'r ffrydiau gwaith sydd am ein tywys tuag at y darlun a nodir uchod;
- Gwyro unrhyw ffrydiau gwaith sydd angen eu gwyro er mwyn gwneud hynny;
- Ystyried a oes yna unrhyw ffrydiau gwaith sydd ar goll.

10.3 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **10.3.1 Teitl y Prosiect: Ymgysylltu** | |
|---|---|
| **Profiad:**<br>• **Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Fframwaith corfforaethol cyson yn cael ei defnyddio ar draws y gorfforaeth i yrru gweithgareddau ymgysylltu (gan gynnwys cyfundrefn reolaethol briodol) | • Cynnydd yn ymwybyddiaeth ymysg swyddogion allweddol<br>• Dinasyddion yn derbyn profiadau ymgysylltu cyson. |
| Panel trigolion yn cael ei ddefnyddio i sefydlu barn carfannau o drigolion yn unol â blaenoriaethau corfforaethol | • Barn y Panel Trigolion wedi ei ddefnyddio i ddylanwadu ar gyfeiriad o leiaf 4 maes. |
| Defnyddio technegau modern i ymgeisio ymgysylltu a thrawstoriad o drigolion | • Trigolion yn derbyn gwybodaeth drwy dechnegau modern ar draws rhai o wasanaethau'r Cyngor |

| **10.3.2 Teitl y Prosiect: Grymuso Cymunedau Gwynedd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt**<br>• **Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cynnal gwaith sgopio mewn perthynas â hyd a lled y cynllun "Ffocws ar Ardaloedd Gwynedd" gan ystyried y cyd berthynas gyda Fforymau Ardal a Phartneriaethau Cymunedol Lleol | • Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn y gwaith sgopio |
| Fforymau Ardal<br>• Creu fforymau ardal i sicrhau ein bod yn datblygu atebion lleol i broblemau lleol ar y cyd gyda'r gymuned leol. | • Cyngor wedi penderfynu ar gyfeiriad<br>• Yn amodol ar gytundeb y Cyngor -Ffiniau ardaloedd i'w defnyddio wedi eu diffinio.<br>• Yn amodol ar gytundeb y Cyngor – Fforymau ardal wedi eu treialu mewn o leiaf 2 ardal. |
| Partneriaethau Cymunedol Lleol<br>• Creu mwy o bartneriaethau lleol o fewn cynghorau cymuned i gyflawni gwasanaethau lleol eu natur.<br>• Sicrhau cyfundrefn ar gyfer arfogi grwpiau cymunedol i gymryd cyfrifoldebau am weithgareddau os dymunant wneud hynny. | • Penderfyniad ynghylch ymestyn y cynllun i ardaloedd eraill. Eglurder ynghylch beth fydd y drefn ar gyfer galluogi cymunedau lleol i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau lleol.<br>• 2 ardal arall yn cael cyfle i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau o fewn eu tiriogaeth. |
| Cyllidebau Lleol<br>• Cynllun ar waith fydd yn rhoi adnoddau go iawn i'r fforymau ardal fedru eu defnyddio i ddiwallu anghenion eu hardaloedd ac i gymunedau benderfynu ar ddyraniad adnoddau | • Dim buddion yn ystod 2012/13 |

| **10.3.3 Teitl y Prosiect: Gofal Cwsmer** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Mwy o drigolion a chymunedau Gwynedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwneud ei orau drostynt**<br>• **Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Ail ddiffinio Strategaeth Gofal Cwsmer<br>• Cyfundrefn ar waith i sicrhau fod diwylliant gofal cwsmer yn greiddiol o fewn gweithgareddau'r Cyngor fydd yn cynnwys fframwaith sylfaenol i gyfarch hyfforddi a datblygu a sicrhau ei fod yn digwydd.<br>• Ymgyrch benodol o fewn sawl uned i newid diwylliant | • Strategaeth Gofal Cwsmer wedi ei mabwysiadu gyda rhaglen waith bendant.<br>• Diwylliant gofal cwsmer wedi ei wreiddio mewn 5 maes gwasanaeth gyda thystiolaeth o welliant ym mhrofiadau'r cwsmer.<br>• Darlun clir a chyflawn o berfformiad y Cyngor ar ddangosyddion ansawdd gofal cwsmer. |
| Trawsnewid Busnes<br>• Gweithgareddau trawsnewid busnes perthnasol wedi ei gyflwyno i reolwyr canol y cyngor fel arf i wella gwasanaeth i gwsmeriaid<br>• 15 ymyrraeth wedi eu cyflawni'n llawn er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid | • Sefydlu rhaglen ddatblygu fewnol cynhwysfawr ar gyfer y Cyngor er mwyn cyfleu'r cysyniadau trawsnewid busnes priodol i reolwyr a staff o fewn y Cyngor<br>• 3 Rheolwr wedi derbyn hyfforddiant systems ac felly 3 ymyrraeth yn digwydd. 3 ymgymerwr mewnol hefyd yn derbyn hyfforddiant systems. |

| **10.3.4 Teitl y Prosiect: Y Gweithlu** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Mwy o staff yn teimlo eu bod yn rhan o'r Cyngor ac yn cael eu gwerthfawrogi**<br>• **Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth**<br>• **Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cynnal adolygiad i drefniadau cyfathrebu mewnol er mwyn adnabod beth yw effaith y gwahanol ddulliau o gyfathrebu. Creu a gweithredu ar raglen waith yn deillio o ganlyniadau'r adolygiad. Codi ymwybyddiaeth o werth ein gwaith i'r gymdeithas. | • Staff yn ymwybodol o beth yw gwerth ac effaith eu gwaith.<br>• Staff gwybodus sydd yn teimlo'n rhan o'r Cyngor a'u cyfranogiad yn cael ei werthfawrogi |
| Buddiannau<br>• Gweithredu pecyn o fuddiannau er mwyn hybu iechyd y gweithlu o fewn a thu allan i'r gweithle ac uchafu'r buddion a geir o weithio i'r Cyngor.<br>• Datblygu pecyn sydd yn hybu agwedd gymdeithasol o weithio gyda'r Cyngor, er enghraifft y sialens gorfforaethol.<br>• Creu datganiad gwobr gyflawn (Total Reward Statement) i staff, a fydd yn eu hysbysu pa fuddiannau sydd ar gael a pha rhai maent yn elwa ohono. | • Cyfres o becynnau i uchafu gwerth ariannol o weithio i'r Cyngor a fydd yn cynyddu bodlonrwydd staff. |

| | |
|---|---|
| Ymchwilio i ddulliau ar gyfer rheoli talent, gan ddatblygu cynllun er mwyn adnabod unigolion sydd gyda photensial, ac yna datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer yr unigolion sydd wedi eu hadnabod, er enghraifft drwy sefydlu cynlluniau secondio, cysgodi rheolwyr a.y.b. | • Y rhai sydd yn dangos potensial yn cael eu cefnogi i ddatblygu<br>• Eglurder ynglŷn â dulliau datblygu llwyddiannus a'r rhwystrau o'u cyflwyno wedi eu datrys |
| Datblygu'r arddull cymhelliant ymysg y rheolwyr, drwy ddatblygu'r gyfundrefn a hyfforddiant. Yn ogystal â thargedu grwpiau penodol ar gyfer datblygu a chyflwyno'r gyfundrefn "Cymhelliant Datblygiadol 1:1". | • Tystiolaeth ddigonol ar gyfer penderfynu ymestyn cymhelliant ar draws y Cyngor<br>• Grwpiau staff a adnabuwyd yn derbyn cymhelliant datblygiadol |
| Diffinio ein gweledigaeth ar gyfer rheoli yng Ngwynedd drwy:<br>• Symud o gyfundrefn hyfforddi draddodiadol i gyfundrefn newydd gyda'r pwyslais ar gyfundrefn dysgu a datblygu.<br>• Mewn un adran/uned fusnes penodol arbrofi ffordd holistaidd i wella dulliau rheoli er mwyn creu diwylliant rheolaethol fydd yn cyflawni llawn botensial y gweithlu.<br>• Cydweithio gyda PSMW i ddatblygu rheolwyr o fewn un Adran | • Eglurder ynghylch sut i fesur effaith hyfforddiant a gweithredu'r hyn a ddysgwyd yn rhan annatod o'r rhaglen hyfforddi.<br>• Rheolwyr yn teimlo'n hyderus i ddelio gyda thanberfformiad ymysg eu staff.<br>• Eglurder ynglŷn â rôl Rheolwr Cyngor Gwynedd |
| Ymchwilio ac adnabod nodweddion timau sydd â pherfformiad uchel. Creu a chyflwyno ymyraethau ar sail y rhain er mwyn uchafu cyfraniad gweithio fel tîm ar draws y Cyngor. | • Dim buddiant ar gyfer 2012/13 |
| Adnabod y rhwystrau presennol ar gyfer creu strwythur gweithlu ystwyth, gan ddatblygu ac yna gweithredu cyfres o opsiynau dewisol, e.e. creu swydd ddisgrifiadau hyblyg sydd yn caniatáu staff i symud ar draws adrannau. | • Rhaglen waith wedi'u blaenoriaethu |

| | |
|---|---|
| Lles Uwch Swyddogion<br>• Ymchwilio i ganlyniad yr arolwg barn er mwyn cadarnhau'r canfyddiad neu beidio gan asesu'r sefyllfa. | • Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn gwaith sgopio |

| **10.3.5 Teitl y Prosiect: Comisiynu gyda Ffocws ar Ganlyniadau** | |
|---|---|
| **Profiad:**<br>• **Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Datblygu'r gyfundrefn cynllunio strategol i sicrhau bod y prif brosiectau'n cael eu comisiynu ar sail canlyniadau. | • Cynllun Strategol wedi ei gytuno gan y Cyngor. |
| Datblygu Fframwaith Comisiynu Canlyniadau a sicrhau bod y prif feysydd gwariant yn cael eu comisiynu ar sail canlyniadau. | • Cytundeb ar fodel gweithredu'r Cyngor gan y Cabinet<br>• Dau faes gwariant wedi eu comisiynu ar sail canlyniadau |
| Gweithredu dull canlyniadau sydd yn cyfrif i gryfhau ffocws y gwasanaethau ar ganlyniadau i drigolion. | • Holl gynlluniau busnes gyda ffocws ar ganlyniadau |
| Gwella perfformiad mewn rhai gwasanaethau sydd yn tanberfformio. | • Gwelliant arwyddocaol i berfformiad y gwasanaethau er budd y cwsmer a'r Cyngor |
| Gweithredu'r polisi caffael cynaliadwy a thargedu prif wariant (dros £500k) y Cyngor | • Cytundebau cynaliadwy wedi eu llunio ar gyfer pob cytundeb dros £500k |
| Datblygu a gweithredu trefniadau i sicrhau datblygiadau priodol gyda'r trydydd sector | • Meysydd gwasanaeth ar gyfer cydweithio wedi eu hadnabod a'u cytuno.<br>• Achosion busnes ar gyfer 2 faes wedi eu paratoi a'u cymeradwyo |
| Comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol | • Cytundeb ar drefniadau a strwythur comisiynu |

| 10.3.6 Teitl y Prosiect: Cefnogi Newid | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o ganlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth**<br>• **Gwell gwasanaethau drwy gyfres o newidiadau arloesol** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Rhaglen hyfforddi ar gyfer cefnogi newid wedi ei ddatblygu ac yn weithredol ar gyfer uwch reolwyr, penaethiaid a chyfarwyddwyr | • Rheolwyr wedi eu datblygu i gefnogi newid yn llwyddiannus |
| Datblygu Capasiti Cefnogi Newid, drwy adnabod y prosiectau allweddol sydd angen cymorth y tîm ac yna dyrannu'r adnoddau yn unol â'r flaenoriaeth. | • Buddiannau ar hyd y daith y prosiectau allweddol wedi eu gwireddu. |
| Datblygu diwylliant arloesol ymysg y staff ac aelodau | • Diwylliant arloesol wedi ei sicrhau ble mae syniadau a gynigir yn cael effaith ar ganlyniadau |
| Cymryd stoc o effaith datblygiad arweinyddiaeth hyd yn hyn gyda golwg ar welliannau sylweddol pellach er mwyn ymdopi gyda'r agenda trawsffurfio. | • Staff yn hyderus yn eu harweinyddiaeth a'u bod yn ei ystyried yn glir ac yn eglur |
| Gweithredu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth | • Rhaglen i ddilyn safon BSI o ran Diogelu Data wedi'i llunio.<br>• Gwell rheolaeth cofnodion trwy fod yr holl staff perthnasol wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o'r Polisi Rheoli Cofnodion. |
| Teclynnau / technegau newydd i hwyluso newid | • Eglurder ynghylch y ffordd ymlaen yn dilyn gwaith sgopio |

| **10.3.7 Teitl y Prosiect: Dyfodol Gwasanaethau Cyhoeddus** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Mwy o gwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd.**<br>• **Bod y Cyngor yn cyflawni fwy o'r canlyniadau sydd yn gwneud gwahaniaeth.**<br>• **Gwell gwasanaethau drwy gyfres o newidiadau arloesol.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Asesu effaith newidiadau, sy'n cynnwys y COMPACT, i wasanaethau cyhoeddus ar drigolion y sir. | • Cytundeb ar gyfundrefn wleidyddol i reoli cydweithio<br>• Nifer cynlluniau cydweithio wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor gyda buddion priodol i drigolion y Sir |

10.4 Gweler isod restr o’r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu’r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon ynghylch y ffordd mae’r Cyngor yn rhedeg pethau | 43% | Cynnydd |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod am fod fwy ynghlwm â phenderfyniadau sydd yn effeithio eu hardal leol | 29% | Cynnydd |
| Cynnydd yn nifer sydd yn datgan eu bod yn fodlon gyda chanlyniad y gwasanaeth a dderbyniwyd yn dilyn eu cyswllt gyda’r Cyngor | 34% | Cynnydd |
| Canran dangosyddion y rhaglenni sydd wedi cwrdd â’u targedau | 64% | 70% |
| Canran y prosiectau yn y rhaglenni sydd yn debygol o gyflawni’r prif fuddiant | 70% | 70 – 75% |

## 11. CYNIGION YN Y MAES ARBEDION AR GYFER 2012/13

### 11.1 Y Weledigaeth, y Canlyniad a'r Profiadau

Gweledigaeth y Cyngor yn y maes Arbedion yw

*Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo gan gynnig gwerth-am-arian i drethdalwyr lleol. Byddwn yn chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gan edrych y tu hwnt i ffiniau'r Cyngor a chydweithio â chyrff eraill i sicrhau'r budd mwyaf i'n trigolion.*

Dros y blynyddoedd nesaf bydd cyflawni'r uchod yn fwy pwysig nag erioed. Rydym yn wynebu cyfnod o doriadau sylweddol mewn gwariant cyhoeddus, fydd yn golygu bod cyllid y Cyngor yn lleihau ar raddfa na welwyd o'r blaen. Oni bai ein bod yn mynd i'r afael â'r her yma byddai perygl i holl sail ariannol y Cyngor ac felly ein gallu i wasanaethu'n trigolion.

Byddwn felly yn mynd ati i sicrhau ein bod yn ymdopi â'r her ariannol sydd o'n blaenau, tra'n ceisio sicrhau bod cyn lleied â phosib o effaith andwyol ar y gwasanaethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

- *Cyflawni'r swm arbedion sydd ei angen ar gyfer cwrdd â gofynion strategaeth ariannol y Cyngor dros y cyfnod, gan effeithio cyn lleied â phosibl ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd.*

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost;*
- *Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau wrth sefydlu sut i gau'r bwlch ariannol ymhellach ar ôl darganfod hynny o arbedion effeithlonrwydd a allwn;*
- *Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi cyfyngu'r angen am arbedion drwy sicrhau adnoddau gan Lywodraeth Cymru am gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd.*

11.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi rhai Ymyrraethau Allweddol lle y mae angen datblygu cynigion penodol a newydd. Bydd gwaith yn digwydd yn ystod y flwyddyn i edrych ar y mater allweddol hwn, cwblhau gwaith dadansoddi / ymchwil ac ymchwiliadau cynhwysol i'r mater fel bod modd datblygu cynigion penodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth i fywyd trigolion fel rhan o'r Cynllun Strategol o 2013 ymlaen.

| **11.2.1 Y Maes: Uchafu effeithlonrwydd** |
| --- |
| **Yr Angen am sylw:**<br>• Mae datganiadau Cyllideb diweddar y Canghellor wedi cadarnhau y bydd y cyfnod o ostyngiadau gwariant cyhoeddus yn ymestyn y tu hwnt i 2014/15 am o leiaf ddwy flynedd arall.<br>• Yn sgil hyn fe fyddwn angen ystyried sut i lenwi'r bwlch ariannol sy'n ein hwynebu dros gyfnod y Cynllun Strategol o 2013 ymlaen. |
| **Yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn ystod 2012/13** |
| Ystyried sut gellir uchafu cyfraniad arbedion effeithlonrwydd tuag at gwrdd â'r bwlch ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Hyn i gynnwys y posibilrwydd o ehangu ar y targedau adrannol sydd eisoes wedi'u darganfod gan wasanaethau'r Cyngor ac ymchwilio i unrhyw ffrydiau gwaith eraill posibl i leihau'r effaith ar drigolion y sir. |

11.3 Gwelir isod restr o’r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o’r hyn y maent am eu gwireddu

**11.3.1 Teitl y Prosiect: Effeithlonrwydd trawsadrannol**

**Profiad/au:**

- Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o’r un safon, ond am lai o gost

| Gweithgareddau’r Prosiect | Buddion i’w gwireddu yn ystod 2012/13 |
|---|---|
| Prosiect cyfan | Arbedion gwerth o leiaf £0.75m, heb effeithio ar ganlyniadau i drigolion Gwynedd, wedi’u hadnabod i’w gweithredu eleni.<br>Arbedion ychwanegol wedi’u hadnabod o gynlluniau unwaith-ac-am-byth. Targed arbedion uwch wedi’i osod ar gyfer y prosiect i’r dyfodol ynghyd ag eglurder am sut bwriedir cyflawni’r arbedion yma. |
| Lean (“Systems thinking”) | 18 uned gwasanaeth wedi dilyn y gyfundrefn ac yn gallu dangos gwelliant ar fesurau cadarn o bwrpas y gwasanaeth, a gweithredu ar faterion ar gyfer gwell gofal cwsmer.<br>Penderfyniad ar barhad y cynllun yng ngoleuni profiad hyd yma. |
| Adolygiadau Strategol | Opsiwn mwyaf ffafriol o blith cyfres o opsiynau, gydag o leiaf un yn dangos arbedion, wedi’i ddewis ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, Hamdden, Datblygu Economi, a Strwythurau Ffyrdd (Cam 2). |
| Cydweithio | Cytundeb gan y Cyngor ar achosion busnes rhanbarthol ar gyfer Caffael a Fflyd. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyfleoedd arbedion wedi’u hadnabod ym meysydd Plant a Phobl Hŷn. |

| **11.3.2 Teitl y Prosiect: Newid polisïau cyllidebu** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Newid polisïau cyllidebu | Arbedion ariannol o £0.4m eleni.<br>Adolygiad o'r opsiynau a phenderfyniad am barhad (neu beidio) y polisi i'r 3edd flwyddyn. |

| **11.3.3 Teitl y Prosiect: Codi incwm** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cynhyrchu incwm | Arbedion ariannol o £0.25m eleni. |
| Treth Cyngor ar ail gartrefi | Deddfwriaeth berthnasol wedi'i phasio (yn amodol ar lwyddiant wrth bwyso am newid deddfwriaethol). |

| **11.3.4 Teitl y Prosiect: Cyfarch y Bwlch Ariannol Gweddilliol** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau wrth sefydlu sut i gau'r bwlch ariannol ymhellach ar ôl darganfod hynny o arbedion effeithlonrwydd a allwn.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cyfarch y Bwlch Ariannol Gweddilliol | Byddwn wedi cytuno sut rydym am gyfarch y bwlch ariannol fydd yn weddill ar ôl gwireddu arbedion effeithlonrwydd, cynlluniau codi incwm, ac unrhyw syniadau eraill fyddai'n lleihau cyllidebau heb effeithio ar ganlyniadau i drigolion.<br><br>*[Fel adroddwyd yn adroddiad Strategaeth Ariannol y Cyngor fis Rhagfyr 2011, mae'r ffaith y bydd lefel codiadau cyflog staff yn debygol o fod yn is nag a ragwelwyd yn ein Strategaeth bresennol, yn golygu bod gennym fwy o amser i ddatblygu cynigion ar gyfer hyn. Ar hyn o bryd fe ymddengys yn annhebygol y bydd bwlch ariannol gweddilliol angen ei lenwi yn 2013/14].* |

| **11.3.5 Teitl y Prosiect: Ysgolion** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost**<br>• **Bydd trigolion wedi cael cyfle i roi'u barn ar eu blaenoriaethau wrth sefydlu sut i gau'r bwlch ariannol ymhellach ar ôl darganfod hynny o arbedion effeithlonrwydd a allwn.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Ysgolion | Er mwyn gwarchod ysgolion rhag sgil-effeithiau gwaethaf yr arbedion, sicrhau cynnydd arian o 1.58% yng nghyllidebau ysgolion cyn effaith demograffi. |

| **11.3.6 Teitl y Prosiect: Prosiectau "galluogi"** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi ymdrechu cymaint â phosibl i barhau i ddarparu gwasanaethau o'r un safon, ond am lai o gost** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Gweithio'n Hyblyg | Asesiad o lwyddiant y peilot Gweithio o Adref.<br>Penderfyniad ar gynllun ehangach, yn ddibynnol ar dystiolaeth am y buddion. |
| System Adnoddau Dynol | System wedi ei phrynu a chychwyn ei mewnosod. |

| **11.3.7 Teitl y Prosiect: Cytundeb Canlyniadau** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Bydd trigolion yn gallu gweld bod y Cyngor wedi cyfyngu'r angen am arbedion drwy sicrhau adnoddau gan Lywodraeth Cymru am gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd.** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| Cytundeb Canlyniadau | Cytundeb gan Lywodraeth Cymru bod y Cyngor wedi dangos ei fod wedi cyflawni'r cynnydd a fwriadwyd y llynedd, a chadarnhad y byddwn yn derbyn 100% o'r swm posibl (£1.3m).<br>Y Cyngor wedi cyflawni'r sgôr angenrheidiol yn erbyn y canlyniadau yn y Cytundeb ar gyfer 2012-13 (o leiaf 25 allan o 30). |

11.4 Gweler isod restr o’r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu’r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Swm arbedion a gyflawnwyd | £6.7m – sef;<br><br>£5.0m Pecyn arbedion £16m<br>£1.2m Newid polisïau cyllidebol<br>£0.5m Prosiect effeithlonrwydd trawsadrannol | Arbedion ariannol parhaol o £21.7m wedi’u tynnu o’r gyllideb, gan sicrhau ein bod wedi paratoi ar gyfer arbed £7.3m pellach yn y bedwaredd flwyddyn. |
| O fewn y swm arbedion uchod: Symiau a wireddir drwy gynlluniau <u>effeithlonrwydd</u> a <u>chodi incwm</u> | Effeithlonrwydd £5.0m<br>Codi incwm £0.6m | Cyfanswm arbedion y 3 blynedd* o leiaf £16.0m drwy gynlluniau Effeithlonrwydd a £1.4m drwy gynlluniau Codi Incwm.<br>* gan gynnwys rhai gytunwyd eisoes yn y pecyn £16m |
| Mesurau perfformiad gwasanaeth yn y meysydd lle cyflawnir arbedion effeithlonrwydd a thoriadau | Dim effaith andwyol ar berfformiad pan weithredir arbedion effeithlonrwydd.<br><br>Mewn meysydd lle gwneir toriadau, effaith ar berfformiad yn unol â’r hyn a ragwelwyd wrth gytuno ar y toriadau. | Dim effaith andwyol ar berfformiad pan weithredir arbedion effeithlonrwydd.<br><br>Mewn meysydd lle gwneir toriadau, effaith ar berfformiad yn unol â’r hyn ragwelwyd wrth gytuno ar y toriadau. |

## 12. CYNIGION YN Y MAES GWELLA IECHYD AR GYFER 2012/13

### 12.1 Y Canlyniad a'r Profiadau

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlyniad canlynol fel amcan gwella yr ydym am weithio tuag ato:-

- *Pobl Gwynedd yn byw bywydau iachach*

Rydym hefyd wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Mwy o bobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach*
- *Mwy o bobl Gwynedd yn cael yr un cyfle i fwynhau'r iechyd gorau posib*
- *Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib*
- *Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu iechyd staff yn y gweithle ac yn ceisio dylanwadu ar gyflogwyr eraill*

12.2 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

| **12.2.1 Teitl y Prosiect: Gwynedd Iach** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>**• Pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach**<br>**• Pobl Gwynedd yn cael yr un cylfe i fwynhau'r iechyd gorau posib** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Normaleiddio ffordd iach o fyw** | • Bydd y Cyngor yn glir o safbwynt yr ymyraethau mwyaf effeithiol ar gyfer gwella iechyd pobl Gwynedd.<br>• Bydd Fforymau Datblygol wedi derbyn arweiniad ar yr ymyraethau mwyaf effeithiol ac wedi comisiynu prosiectau/gwasanaethau |
| **Brand Gwynedd Iach** | • Bydd brand Byw'n Iach wedi ei lansio<br>• Bydd gwasanaethau ac asiantaethau allanol yn gallu cyflwyno ceisiadau am achrediad 'Byw'n Iach' y Cyngor. |
| **Datblygu'r Brand** | • Byddwn wedi adnabod cyfleon i gydweithio gydag adrannau ac asiantaethau eraill er mwyn gwella iechyd trigolion Gwynedd. |

| **12.2.2 Teitl y Prosiect: Gwynedd Egniol** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael yr un cylfe i fwynhau'r iechyd gorau posib** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Gweithgareddau Egniol** | • Byddwn wedi sefydlu Fforwm aml asiantaethol i gydlynu'n well yr holl weithgareddau egniol ar draws Gwynedd<br>• Byddwn wedi cytuno ar gynllun gweithredu aml asiantaethol fydd yn annog holl drigolion Gwynedd i wneud ***'ychydig bach mwy pob dydd'.***<br>• Bydd gan y Cyngor well eglurder ar y ddarpariaeth bresennol o fewn y Sir<br>• Bydd darlun cynhwysfawr o ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr Gwynedd ar gael er mwyn gallu targedu gweithgareddau ac adnoddau ar sail y prif gyflyrau iechyd.<br>• Byddwn wedi adolygu ffioedd cyfleusterau hamdden er mwyn gwella mynediad<br>• Byddwn wedi datblygu cynllun LAPA (Local Authority Partnership Agreement) gyda Chwaraeon Cymru ar gyfer 2013-17 ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd egniol |

| 12.2.3 Teitl y Prosiect: Gwynedd Di-fwg | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael yr un cylfe i fwynhau'r iechyd gorau posib** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Hybu cyrsiau ymyrraeth fer** | • Hybu cyrsiau ymyrraeth fer<br>• Byddwn wedi treialu cynlluniau i gynnig cyrsiau ymyrraeth fer mewn dau leoliad yng Ngwynedd |
| **Cardiau Tybaco** | • Byddwn wedi cydweithio efo'r Gwasanaeth Ieuenctid i i ddatblygu ac i lansio cardiau gwybodaeth newydd yn annog pobl ifanc i roi'r gorau i smygu neu i beidio dechrau<br>• Byddwn wedi arfarnu'r cynllun a gweithredu ar argymhellion |
| **Meysydd Chwarae Di-fwg** | • Bydd trefniadau i ddatblygu cyfundrefn atal ysmygu mewn meysydd chwarae plant wedi'u cytuno<br>• Bydd trefniadau gweithredu mewn lle mewn 3 maes chwarae |

| **12.2.4 Teitl y Prosiect: Bwyd a Maeth** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael yr un cylfe i fwynhau'r iechyd gorau posib** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Siarter Fwyd Gwynedd** | • Bydd partneriaid Siarter Bwyd Gwynedd wedi cytuno ar bwy sy'n arwain datblygiad y Siarter a sut i ddatblygu a hybu gweithgareddau hyrwyddo'r Siarter |
| **Garddio** | • Byddwn wedi sefydlu cynllun garddio yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn a mesur gwerth datblygu'r cynllun mewn canolfannau eraill yng Ngwynedd<br>• Byddwn wedi dadansoddi gwaith presennol y Cyngor ar weithio yn y maes rhandiroedd, gan ddadansoddi beth ydy'r angen a sut i'w gyfarch yn fwy llwyddiannus.<br>• Byddwn wedi datblygu rhaglen waith i hyrwyddo'r defnydd o randiroedd neu hybu unigolion/cymunedau Gwynedd i dyfu eu cynnyrch adref |
| **Llwybr Gordewdra** | • Byddwn wedi adnabod ac yn gweithredu ymyraethau ym maes gordewdra yn unol â blaenoriaethau'r Bwrdd Gordewdra Rhanbarthol |
| **Fforwm Bwyd a Maeth** | • Byddwn wedi sefydlu Fforwm aml asiantaethol i gydlynu'n well yr holl agenda bwyd a maeth ar draws Gwynedd |
| **Cwrs OCN Bwyd a Maeth** | • Byddwn wedi adnabod aelodau o staff o fewn y Cyngor a fyddai'n fuddiol iddynt i gwblhau'r cwrs yma, er mwyn creu negeseuon cyson |
| **Maeth Plant a Phobl Ifanc** | • Byddwn yn gweithio gyda'r Gweithwyr Ieuenctid er mwyn sicrhau bod neges gyson ynglŷn â bwyd a maeth yn mynd allan i blant Gwynedd |
| **Hybu Ymwybyddiaeth Bwyta'n Iach** | • Byddwn wedi mapio darpariaeth bwyd a diod o fewn Canolfannau Hamdden y Sir, er mwyn gwneud argymelliadau ar le i wella.<br>• Bydd o leiaf un canolfan hamdden yn cynnig bwydlen i gwsmeriaid sydd wedi ei frandio ar sail 'Byw'n Iach' ac sy'n cynnig bwydlen maethlon.<br>• Byddwn wedi archwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Co-op Fwyd o fewn Canolfannau Hamdden y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| **Hybu Sgiliau Coginio** | • Byddwn wedi edrych sut i ddefnyddio staff arbenigol o fewn cymunedau/grwpiau arbennig i hybu sgiliau coginio. |

| **12.2.5 Teitl y Prosiect: Alcohol a Chyffuriau** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach**<br>• **Pobl Gwynedd yn cael yr un cylfe i fwynhau'r iechyd gorau posib** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Fforwm Datblygol Iechyd a Lles** | • Byddwn wedi sefydlu Fforwm aml asiantaethol i ganolbwyntio ar weithgareddau ataliol gwella iechyd a lles ar draws Gwynedd gan gynnwys alcohol a chyffuriau<br>• Byddwn wedi datblygu rhaglen waith y Fforwm fydd yn cyfarch gwaith ataliol yn y maes hwn |
| **Ymyrraeth Tymor Byr – Rhaglen Ataliol Alcohol Pobl Hŷn** | • Bydd rhaglen hyfforddiant mewn lle ar gyfer hyfforddi staff sut i weithredu ymyrraethau tymor byr |

| **12.2.6 Teitl y Prosiect: Iechyd o fewn y Cyngor** | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib**<br>• **Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu iechyd staff yn y gweithle ac yn ceisio dylanwadu ar gyflogwyr eraill** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Prif Ffrydio Gwella Iechyd o fewn gweithgareddau'r Cyngor** | • Bydd hyfforddiant ar CETIS i godi ymwybyddiaeth rheolwyr o faterion iechyd ar gael<br>• Bydd mwy o reolwyr y Cyngor yn ymwybododol o brif faterion iechyd |
| **Asesiadau Effaith Iechyd** | • Byddwn wedi hyfforddi swyddogion allweddol o fewn y Cyngor i arwain ar asesiadau effaith iechyd |
| **Datblygu'r Brand** | • Byddwn wedi adnabod cyfleon i gydweithio gydag adrannau ac asiantaethau eraill er mwyn gwella iechyd trigolion Gwynedd. |

| 12.2.7 Teitl y Prosiect: Iechyd Corfforaethol | |
|---|---|
| **Profiad/au:**<br>• **Pobl Gwynedd yn byw mewn sir sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd ac yn uchafu'r buddion posib**<br>• **Cyngor Gwynedd yn blaenoriaethu iechyd staff yn y gweithle ac yn ceisio dylanwadu ar gyflogwyr eraill** | |
| **Gweithgareddau'r Prosiect** | **Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13** |
| **Gwella Iechyd a Lles Staff Cyngor Gwynedd** | • |
| **Dylanwadu ar iechyd a lles y boblogaeth gyfan** | • Byddwn wedi gweithredu Her Beicio Gwynedd fel astudiaeth achos posib ar gyfer y Safon Platinwm a thrwy hynny gynyddu'r nifer o feicwyr yng Ngwynedd<br>• Bydd mwy o eglurder ar natur y rhwystrau i weithgaredd egniol a hynny'n benodol ym maes beicio<br>• Byddwn yn cynyddu cyfleon i feicio a cherdded gan roi sylw i *Active Transport Wales* |

12.3 Gweler isod restr o'r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Targedau *Creu Cymru Egniol* 'Un diwrnod yn rhagor' i blant ac oedolion | Gwaelodlin ddim ar gael tan 2011/12 | I'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn ysmygu | 25% | I'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau pob dydd | 42% | I'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn dew neu'n ordew | 55% | I'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| % oedolion sy'n adrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau cydnabyddedig | 47% | I'w bennu mewn ymgynghoriad efo Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Nifer y dyddiau a gollwyd i salwch yng Nghyngor Gwynedd | 10 diwrnod mesul unigolyn | 8 diwrnod mesul unigolyn |

## 13. CYNIGION YN Y MAES IAITH AR GYFER 2012/13

**13.1 Y Canlyniad a'r Profiadau**

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:-

*Pobl yn byw trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd*

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder.

- *Teuluoedd yn magu eu plant trwy gyfrwng y Gymraeg*
- *Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol*
- *Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd*
- *Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd*

13.2 Mae'r Cyngor tyn bwriadu cyflawmi adolygiad cynyhwysfarw o bob un o feysydd y Cynllun Gwella hwn gyda gowlg ar gytuno Cynllun Strategol newydd o 2013 ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys sylw i'r maes hwn. Mae'n bosib felly y cyfdty materion newydd o fewn maes yr Iaith y bydd angen rhoi sylw iddynt o 2013 ymlaen.

13.3 Gwelir isod restr o'r gweithgareddau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu:

| **13.3.1 Teitl: Dyfodol y Gymraeg yng Ngwynedd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:** Y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd. | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2012/13** |
| Cynnal ymgynghoriad i sicrhau dealltwriaeth o anghenion lleol. | Gwell dealltwriaeth o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y sir a chamau wedi eu hadnabod i geisio sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Gwynedd. |
| Cynnal cynhadledd ar ddyfodol cymunedau Cymraeg yng Ngwynedd ac yn genedlaethol. | |

| **13.3.2 Teitl: Trawsnewid defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg ymysg plant sector cyrnadd Gwynedd** | |
|---|---|
| **Profiad/au:** Plant a phobl ifanc yn byw, dysgu, gweithio a mentro trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngwynedd | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2012/13** |
| Gweithredu ar ran Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg i enghreifftio a mesur effaith cynllun Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. | Effaith gweithgaredd i hybu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg wedi ei asesu. |

| **13.3.3 Teitl: Y Gymraeg o fewn gwaith partneriaethol a chydweithio** | |
|---|---|
| **Profiad/au:** Y Gymraeg yn iaith fusnes yng ngweithleoedd Gwynedd. | |
| **Gweithgareddau** | **Buddion ar hyd y daith – 2012/13** |
| *Comisiynu ymchwil i weld pa drefniadau sydd gan bartneriaethau neu mewn achosion o gydweithio rhwng y Cyngor ac eraill o safbwynt y Gymraeg a chydymffurfio â Chynllun Iaith Gwynedd. | Darlun clir ynglŷn â'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn gwaith partneriaeth a chydweithio. |

13.4 Gweler isod restr o'r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu'r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|
| % plant 3-4 oed sydd yn gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad). | Yng Ngwynedd, yn ôl Cyfrifiad 2001, 2 riant yn siarad Cymraeg gartref = 89.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; rhiant sengl yn siarad Cymraeg = 73.4% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; un o ddau riant yn siarad Cymraeg = 55.7% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg; dim oedolyn yn siarad Cymraeg = 34.6% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg. | Rhagor o deuluoedd yn defnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd. |
| % y plant sydd yn derbyn asesiad mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd newydd). | Dim gwaelodlin. | Rhagor o blant gyda sylfaen gadarn i'r Gymraeg erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. |
| % poblogaeth Gwynedd sydd yn gallu siarad Cymraeg. | 69% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn ôl Cyfrifiad 2001, gostyngiad o -1.8% ers 1991. 41 Adran Etholiadol efo dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 o gymharu â 60 ward yn 1991. | Rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. |

## 14. CYNIGION YN Y MAES CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR GYFER 2012/13

### 14.1 Y Canlyniad a'r Profiadau

Yn y maes hwn, rydym wedi gosod y canlynol fel canlyniad yr ydym am weithio tuag ato:

- *Strategaeth a pholisiau cynllunio defnydd tir a fydd yn cyfarch y prif faterion sy'n gwynebu ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Gwynedd a Môn*

Yn ogystal, rydym wedi nodi'r profiadau a ganlyn sydd yn disgrifio'r prif elfennau o'r canlyniad mewn mwy o fanylder:

- *Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer unedau preswyl*
- *Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer cyflogaeth*
- *Safon amgylcheddol yr ardal yn cael ei gynnal neu ei wella*
- *Datblygiadau sy'n wydn i effeithiau newid hinsawdd*
- *Anghenion cymunedau yn cael eu cyfarch yn lleol.*

14.2 Mae'r Cyngor tyn bwriadu cyflawmi adolygiad cynyhwysfarw o bob un o feysydd y Cynllun Gwella hwn gyda gowlg ar gytuno Cynllun Strategol newydd o 2013 ymlaen. Bydd hyn yn cynnwys sylw i'r maes hwn. Mae'n bosib felly y cyfdty materion newydd o fewn maes y Cynllun Datblygu Lleol y bydd angen rhoi sylw iddynt o 2013 ymlaen.

14.3 Gwelir isod restr o'r prosiectau y bwriedir eu cyflawni gyda nodyn o'r hyn y maent am eu gwireddu

<table>
<tr><td colspan="2">14.3.1 Teitl y Prosiect: Prosiect Strategol Cynllun Datblygu Lleol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Profiad/au:<br>▪ Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer unedau preswyl<br>▪ Cyflenwad digonol a parhaus o dir ar gyfer cyflogaeth<br>▪ Safon amgylcheddol yr ardal yn cael ei gynnal neu ei wella<br>▪ Datblygiadau sy'n wydn i effeithiau newid hinsawdd<br>▪ Anghenion cymunedau yn cael eu cyfarch yn lleol.</td></tr>
<tr><th>Gweithgareddau'r Prosiect</th><th>Buddion i'w gwireddu yn ystod 2012/13</th></tr>
<tr><td>Llunio y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd</td><td>▪ Bydd cyfeiriad strategol wedi ei osod o ran adnabod opsiynau twf o ran nifer o unedau preswyl a thiroedd ar gyfer cyflogaeth a manwerthu.<br>▪ Bydd y Cynllun cyn adnau yn rhoi sylw i flaenoriaethau strategol lleol ac yn cwrdd â phrofion cadernid.</td></tr>
</table>

14.4 Gweler isod restr o’r dangosyddion sydd yn ceisio mesur cynnydd tuag at wireddu’r profiadau y maent yn anelu tuag atynt:

| Dangosydd | Gwaelodlin | Cyrhaeddiad 2014 |
|---|---|---|
| Adnabod prif faterion a gweledigaeth ar gyfer Cynllun | Bydd y broses hon yn seiliedig ar y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun a fydd wedi ei sefydlu yn dilyn ymgynghoriad â budd ddeiliaid o safbwynt blaenoriaethau strategol ar gyfer y Sir. | Cytundeb a chysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a blaenoriaethau strategol eraill ar gyfer y Sir. |
| Nifer o unedau preswyl ac arwynebedd tir ar gyfer cyflogaeth o fewn y drafft cyn adnau o’r Cynllun yn cyfarch gofynion lleol. | I’w sefydlu fel rhan o’r broses o sefydlu y sail tystiolaeth ar gyfer y Cynllun. | I’w sefydlu. |
| Budd ddeiliaid ac unigolion a fu’n rhan o’r broses ymgynghori ar y drafft cyn adnau o’r Cynllun. | Budd ddeiliaid wedi eu hadnabod o fewn y Cynllun Cyflawni. | Budd ddeiliaid ac unigolion yn cymeryd rhan ac yn cyfrannu i’r broses ymgynghori. |
| Nifer ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft cyn adnau o’r Cynllun. | I’w sefydlu. | Lefel uchel o ymatebion yn cael eu datrys. |
| Cynllun Adnau yn cyfarch y prif faterion strategol sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd | Dim gwaelodlin. | Asesiad wedi ei gynnal o’r cynllun yn erbyn y weledigaeth a’r prif faterion strategol. |

**ATODIAD 1**

## MESURYDDION ALLWEDDOL Y CYNGOR

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | RhPe1 | % adrannau sydd â'u cyfresi mesuryddion am 2012/13 yn rhoi ffocws ar ganlyniadau | - | 12 | 11 | | 12 |
| Y Cyngor | Cyd1 | Nifer cynlluniau cydweithio wedi eu mabwysiadu gan y cyngor gyda buddion priodol i drigolion y sir | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Addysg | DGD17 | % y bobl ifanc 16 - 18 oed nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant | - | 3.60% | 3.60% | 4.40% | Lleihau |
| Addysg | DANS08 | % disgyblion 16 oed sydd yn ennill trothwy lefel 2 (5 Gradd A* – C TGAU) neu gyfatebol | 65% | 63% | 71% | 67.29% | 70.70% |
| Addysg | GY03 | % o Ysgolion Uwchradd Gwynedd yn yr hanner uchaf mewn perthynas â gwerth ychwanegol o CA2 (7-11oed) i Trothwy Lefel 2 + yn CA4 (14-16 oed) | - | - | - | | 50% |
| Addysg | GY04 | % gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim CA2 yn y dangosydd Pynciau Craidd | 12.13% | - | 26.83% | | 23% |
| Addysg | GY05 | % gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim CA3 yn y dangosydd Pynciau Craidd | 24.26% | - | 31.24% | | 31% |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | EDU/002i | % yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai dan ofal yr awdurdod lleol) sy’n troi’n 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol ac yn gadael addysg, hyfforddiant amser llawn neu’n dysgu tra’n gweithio heb gymhwyster allanol cymeradwy. | 0.21% | 0.70% | 0.21% | 0.54% | Lleihau'r nifer |
| Addysg | EDU/008b | Nifer disgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr uwchradd (fesul 1,000 o ddisgyblion) | 1.71 | 3 | 1.03 (7 disgybl) | 0.86 | 6 Disgybl |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | OED03 | Galluogi - % o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | - | - | - | | 50.00% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/019 | O’r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion wedi’u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran: iii) Lle mae’r perygl wedi’i ddileu neu ei leihau (disodli SCA016(biii) | 70.91% | 67% | 98% | 88.02% | 92% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002a | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd): a) Sy’n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy’n 65 oed a throsodd | 60.47 | 60 | 49.72 | 78.6 | 60 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/035 | % o blant sy'n derbyn gofal sy'n gymwys ar gyfer asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 sydd wedi ennill y dangosydd pwnc craidd fel caiff eu penderfynnu yn ol yr asesiad athro | 40.00% | Dangosydd Cenedlaethol | 37.50% | 53.68% | Dangosydd Cenedlaethol |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/006 | % o gyferiadau ble roedd penderfyniad wedi ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 83.41% | 85% | 97% | 96.40% | 85% |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Diogelu3/SCC010 | % y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis (eithrio GAP) | 27.44% | 25% | 39.10% | 29.70% | 20% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | CSC034 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i gwblhau asesiadau craidd gofynnol | - | - | - | | Dangosydd Cenedlaethol |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | Diogelu2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | - | - | | 90% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | OED04 | Galluogi - % y rhai a dderbyniodd wasanaeth Galluogi a ddychwelodd o fewn 2 flynedd | - | - | - | | 40% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/007 | % y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 62.69% | 67% | 69.58% | 78.28% | 73% |
| Economi | SaC01 | % yr unigolion oed gwaith a gefnogir sy'n symud ymlaen i waith (TiW a GENESIS) | - | - | - | | 25% |
| Economi | SaC04 | Nifer prentisiaid wedi eu cyflogi | - | - | - | | 35 |
| Economi | Twr4 | Budd i'r economi Lleol o gefnogi digwyddiadau proffil uchel a strategol | - | - | - | | £3.4m |
| Byw'n Iach | Ge05 | % disgyblion nad oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn cymryd rhan mewn 5 sesiwn ymarfer 60 munud yr wythnos | - | - | - | | Gwaelodlin |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byw'n Iach | DPI07 | % o blant sydd yn dewis cinio ysgol yn ddyddiol o fewn y sector cynradd | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Byw'n Iach | DPI08 | % o blant sydd yn dewis cinio ysgol yn ddyddiol o fewn y sector uwchradd | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Gwasanaeth Ieuenctid | GI5 | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasanaeth | 210 | 300 | 561 | | 400 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Ieu3 | % y bobl ifanc a gefnogir gan weithwyr ieuenctid ysgolion sydd yn ymgysylltu | - | - | - | | 75% |
| Byw'n Iach | DADH.34 | Nifer yr ymweliadau gyda chanolfannau hamdden a chwaraeon yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 12439.94 | 12644 | 12135.19 | 8760.86 | 12644 |
| Byw'n Iach | Ge05 | % o ddisgyblion uwchradd (11-16 oed) sy'n datgan eu bod yn segur cynt sydd bellach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau 5x60 yn ystod y flwyddyn | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Byw'n Iach | DADH.01 | Nifer dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (Darparu a Hamdden) | 11.78 | 10.67 | 11.53 | | 11 |
| Byw'n Iach | DPI10 | % o ganolfannau egniol sy'n cynnig bwydlen dewisiol maethlon i gwsmeriaid | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Byw'n Iach | DADH.42 | % o ddisgyblion cynradd sy'n mynychu gwersi sydd yn llwyddo i gyrraedd safon lefel 3 yn yr asesiad nofio | 63% | 75% | 80% | | 75% |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byw'n Iach | DADH.39 | % o ddisgyblion cynradd (7-11oed) sy'n ymgymryd a gweithgaredd corfforol all gwriciwlaidd trwy gyfrwng Campau'r Ddraig dros gyfnod o flwyddyn academaidd | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Byw'n Iach | Ge02 | (5 x 60): Nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan fel % o'r boblogaeth ysgolion 5 x 60 cyfredol. | - | - | - | | Gwaelodlin |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB01 (THS/011a) | Cyflwr y prif ffyrdd (A) (data gyda cymhaeriaeth Cenedlaethol) | 5.10% | 4.80% | 5.70% | 6.00% | 4.10% |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB02a (THS/011b) | Cyflwr ffyrdd heblaw'r prif ffyrdd (B) (data gyda cymhaeriaeth Cenedlaethol) | 5.20% | 11.50% | 5.50% | 7.80% | 4.20% |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB02b (THS/011c) | Cyflwr ffyrdd dosbarth © (data gyda cymhaeriaeth Cenedlaethol) | 7.90% | - | 7.83% | 19.21% | 7.80% |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | PB11a (STS/005a) | Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd | 70.89% | 67% | 73% | 70% | 70% |
| Tai | HHA/002 | Cyfartaledd y nifer o ddyddiau a dreuliwyd o fewn y system digartrefedd o ddyddiad derbyn y cyfeiriad at gyflawni gofyn y defnyddiwr | 181.06 | Dangosydd Cenedlaethol | 143.2 | 128.3 | 128 |
| Cynllunio | CT29 | % yr holl geisiadau cynllunio perthnasol wedi eu pennu o fewn 8 wythnos | - | - | - | | 70.00% |
| Hylendid Bwyd | GyC10 PPN/008ii | % y busnesau newydd wedi eu canfod a oedd yn destun i ymweliad asesu risg neu a wnaeth ddychwelyd holiadur hunan asesu yn ystod y flwyddyn ar gyfer Hylendid Bwyd | 73.68% | 90% | 73.24% | 84.80% | 60% |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hylendid Bwyd | PAM9 (PPN/009) | % sefydliadau bwyd Gwynedd sydd yn derbyn sgôr o 4 neu 5 ar gyfer hylendid | 82.31% | 82% | 88.72% | 82.96% | 82% |
| Y Cyngor | Eff5 | Canran y cynlluniau arbedion sydd ag asesiad effaith cydraddoldeb cadarnhaol | - | - | - | | 100% |
| Y Cyngor | Eff6 | Nifer cynlluniau arbedion effeithlonrwydd newydd arfaethedig sydd wedi bod yn destun asesiad effaith cydraddoldeb | - | - | - | | 100% |
| Y Cyngor | D2.1 | Nifer o ddyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff (lefel presenoldeb y Cyngor) | 8.7 diwrnod | 8 diwrnod | 8.29 diwrnod | | 7.88 diwrnod |
| Y Cyngor | PEN07 | Level Scor Pwynt Bodlonrwydd staff gyda'r Cyngor fel lle i weithio | - | - | 573 | | 602 |
| Gofal Cwsmer | CD6.03 | % yr anfonebau a dalwyd o fewn 14 diwrnod (ar draws y Cyngor) | - | - | 62.10% | | 74.00% |
| Y Cyngor | CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | 0.20% | Gwariant o fewn y goddefiant derbyniol. | 0.17% | | Gwariant o fewn y goddefiant derbyniol. |
| Y Cyngor | CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 12.2% (Cynnydd dros 3 blynedd) | Amrywiaeth o ddim mwy na +/- 1% o gyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru | 16.13% (Cynnydd dros 4 blynedd) | | Amrywiaeth o ddim mwy na +/- 1% o gyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru |

| Gwasanaeth | Cyfeirnod | Mesuryddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | LEGIO01 | % yr asesiadau legionella sy'n cael eu cwblhau ar amser | - | - | - | | |
| Tir ac Eiddo | LEGIO02 | Nifer o argymhellion asesiadau legionella sydd wedi derbyn sylw | - | - | - | | |
| Gofal Cwsmer | DGCH02 | % o lythyrau a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith | 81% | 82% | 86% | | 86% |
| Gofal Cwsmer | CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | 38 | 35 | 21.4 | | 22 |
| Gofal Cwsmer | CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | 7.8 | 7 | 3.8 | | 6 |

**ATODIAD 2**

**STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR AR GYFER 2011-15**

1. Yn unol â'i drefniadau arferol mae'r Cyngor wedi llunio strategaeth ariannol sy'n plethu gyda'r Cynllun Strategol.

2. Mewn gwirionedd, oherwydd ein bod wedi darogan ymhell yn ôl y byddem yn debygol o fod yn wynebu sefyllfa anodd dros gyfnod estynedig, mae'r Cyngor wedi paratoi strategaeth sy'n ymestyn dros gyfnod o bedair blynedd i 2014/15 er mwyn sicrhau ein bod yn paratoi ddigon cynnar ar gyfer y sefyllfa anodd yr ydym yn ei wynebu ac sy'n debygol o barhau dros gyfnod tu hwnt i gyfnod y Cynllun hwn.

3. Dros y tair blynedd yn dechrau yn 2012/13 dengys ein rhagolygon y bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad yn aros yr un fath eleni, yn cynyddu tua 1% yn 2013/14 ac yn cynyddu tua 0.3% yn 2014/15.

4. Gan fod tua 80% o wariant y Cyngor yn dod o'r ffynhonnell yma, a chan fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i wynebu effaith chwyddiant a chwrdd â'r pwysau cynyddol sy'n disgyn ar ein gwasanaethau, rhagwelir y byddwn yn wynebu diffyg cyllidebol sylweddol dros y cyfnod dan sylw.

5. 'Rydym wedi ceisio darogan yr hyn y gallasem fod yn ei wynebu o ran diffyg posibl ac ystyried sut y byddwn yn dygymod a sefyllfa o'r fath.

6. Mae'r tabl isod yn nodi maint y diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni hynny:

**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2011/12 – 2014/15**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg cyllidol a ragwelir | 8.6 | 8.3 | 9.6 | 10.6 | 37.1 |
| Treth Gyngor | (1.9) | (1.7) | (2.4) | (2.1) | (8.1) |
| Arbedion £16m | (4.9) | (3.8) | (1.3) | (0.9) | (10.9) |
| Newid polisi cyllidebu | (1.2) | (0.4) | - | - | (1.6) |
| 1% effeithlonrwydd gwasanaeth | - | (1.5) | (1.8) | (2.0) | (5.3) |
| Effeithlonrwydd corfforaethol | (0.5) | (0.7) | (1.4) | (2.0) | (4.6) |
| Codi incwm | - | (0.3) | (0.1) | | (0.4) |
| Bwlch gweddilliol posibl | (0.1) | 0.1 | (2.6) | (3.6) | (6.2) |

7. Daw'r ffigwr ar gyfer y diffyg cyllidol rhagweledig o £37.1m o dafluniadau a wnaed o sefyllfaoedd posibl o ran y grant a geir gan y Cynulliad a'r chwyddiant a ragwelir ynghyd a'r pwysau sy'n debygol o ddisgyn ar wasanaethau. Yn naturiol, cyfrifiad ar gyfer cynllunio yw hwn a bydd y gwir sefyllfa yn sicr o newid fel yr aiff amser yn ei flaen.

8. Fe welir ein bod yn ystyried y gallwn godi tua £8.1m drwy gynyddu'r Dreth Gyngor ac eisoes mae gennym £10.9m y gallwn ei ddefnyddio o'r rhestr arbedion o £16m y bu i ni eu darganfod yn 2010/11.

9. Fe welir fod gweddill y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarganfod arbedion effeithlonrwydd gan awgrymu y byddwn angen o bosibl darganfod bwlch o tua £6.2m yn y ddwy flynedd olaf. Fodd bynnag, fe allasai nifer o ffactorau effeithio ar y ffigwr yma ac amcan y Cyngor yw ceisio darganfod hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd er mwyn osgoi gymaint ag y gallwn, unrhyw doriadau i wasanaeth.

10. Nid yw hynny'n golygu wrth gwrs na fydd ein trigolion yn gweld gwahaniaethau i wasanaethau. Bydd angen i ni sicrhau ein bod yn darganfod dulliau arloesol a gwahanol i gwrdd ag anghenion ein trigolion er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau prin sydd ar gael a thra byddwn yn parhau i ofalu am ein trigolion mwyaf bregus - mae bron yn anorfod y bydd hynny'n golygu fod yn rhaid i ni fod yn ddyfeisgar wrth wneud hynny.

11. Yn amlwg, mae'r gwaith o ddarganfod arbedion am fod yn dasg enfawr ac fe gydnabyddir hyn yn y Cynllun Strategol ond mae'r cynllun hefyd yn diffinio ein huchelgais ar gyfer trigolion Gwynedd ac er mwyn cyflawni hyn bydd angen buddsoddi er mwyn cyflawni'r uchelgais hwnnw.

12. Eisoes mae’r Cyngor wedi gosod cronfa unwaith ac am byth  o dros £3m o’r neilltu er mwyn ariannu’r Cynllun ac mae’r tafluniadau gwariant a wnaed ar gyfer cyfrifo’r diffyg a nodir uchod hefyd yn cynnwys cyllideb barhaol o £2m wedi ei rannu dros dair blynedd er mwyn ariannu unrhyw wariant parhaol.

13. Gyda’i gilydd felly mae’r strategaeth ariannol a luniwyd ar gyfer y cyfnod i ddod yn gwneud dau beth - sef sicrhau fod gennym gyllideb gytbwys tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer ei drigolion.

14. Yn y flwyddyn gyfredol byddwn yn ail ymweld â’r strategaeth ariannol yma er mwyn diweddaru’r tybiaethau a dechrau cynllunio ymlaen ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol gyda’r rhagdybiaeth ar hyn o bryd y bydd y cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn parhau.

**ATODIAD 3**

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD CENEDLAETHOL**

Dangosyddion a adroddir yn unol â Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010;

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/001 | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. | 7.84 | 7.87 | 1.39 | 5.03 | 1.39 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002a | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth idydnt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawth | 60.47 | 60 | 49.72 | 78.6 | 60 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCA/002b | Cyfradd y bobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | 26.72 | 25 | 24.9 | 21.35 | 23.33 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/002 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | 19.47% | 20% | 14.10% | 12.19% | 25% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/037 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhywsefyllfa ddysgu a gynhelir gan | 188.4 | Dangosydd Cenedlaethol | 314 | 193.14 | Dangosydd Cenedlaethol |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | awdurdod lleol. | | | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033a | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed | 100% | 100% | 91.70% | 92.58% | 100% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033b | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | 88.24% | 90% | 100% | 90.88% | 90% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | SCC/033c | Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysyllitad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed. | 47.06% | 80% | 63.60% | 52.21% | 75% |
| Tai | HHA/013 | Canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref ac yr ataliwyd iddynt fod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | 87.46% | Dangosydd Cenedlaethol | 66.30% | 60.46% | Dangosydd Cenedlaethol |
| Tai | PSR/002 | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 291.11 | 310 | 281.27 | 326.03 | 280 |
| Tai | PLA/006 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. | 41.42% | 20% | 23.26% | 26.06% | 26% |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai | PSR/004 | Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. | 4.74% | Dangosydd Cenedlaethol | 4.32% | 4.62% | 4.60% |
| Addysg | EDU/002i | Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol. | 0.21% | 0.70% | 0.21% | 0.54% | Lleihau'r nifer o disgyblion |
| Addysg | EDU/002ii | Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol. | 8.30% | 8% | 0% | 3.48% | 0% |
| Addysg | EDU/011 | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. | 395 | 414 | 484 | 424.35 | Sgôr pwyntiau wedi gapio i'w gasglu'n genedlaethol |
| Addysg | EDU/015a | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau | 86.70% | 60% | 90.90% | 73.31% | 91% |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gan gynnwys eithriadau. | | | | | |
| Addysg | EDU/015b | Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau heb gynnwys eithriadau. | 100% | 95% | 100% | 94.37% | 100% |
| Rheoli Gwastraff | WMT/009 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd | 43.97% | 48% | 46.42% | 48.53% | 53% |
| Rheoli Gwastraff | WMT004 | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi. | 54.10% | 58% | 51.84% | 44.73% | 52% |
| Rheoli Gwastraff | STS/006 | Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 diwrnod gwaith. | 94.9% | 95% | 95.08% | 91.36% | 95% |
| Trafnidiaeth/ Priffyrdd | THS/007 | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws. | 78.37% | Dangosydd Cenedlaethol | 71.39% | 82.63% | Dangosydd Cenedlaethol |
| Diwylliant a Chwaraeon | LCS/002 | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. | 12439.94 | 12644 | 12135.19 | 8760.86 | 12644 |

| Maes Gwasanaeth | Cyfeirnod | Dangosyddion | Perfformiad 2010/11 | Targed 2011/12 | Perfformiad 2011/12 | Cyfartaledd Cymru 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant a Chwaraeon | LCL/001 | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth. | 5072.22 | 3847 | 5741.48 | 6047.57 | 5060 |
| Effeithlonrwydd Ynni | EEF/002 | Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. | 4.06% | 5.00% | 13.84% | 4.20% | I'w gadarnhau |
| Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor | BNF/004 | Yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau newydd a rhai'n gysylltiedig ag amgylchiadau wedi newid o ran Budd-daliadau Tai a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor. | 14.2 | 13 | 9.3 | | I'w gadarnhau |